PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 356 | CHWEFROR 2013

**Pum Cenhedlaeth**



t5

**Dŵr ym Mhenrhyn-coch**



t12



**Y Cae a'r Capel**

t20

# Cymdogion yn Ennill Tlysau!

Llongyfarchiadau i Meinir Williams, Llandre enillodd gadair Eisteddfod Ysgol Gyfun Penweddig yn eu Heisteddfod a'i chymydog Dylan Edwards, enillodd goron y Steddfod am stori fer. Daeth Dylan yn ail am y gadair hefyd.





Hollie Evelyn Bevan, a fedyddiwyd ar Ionawr 6 yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor gyda'i brawd mawr Simon a'i rhieni Katie a Simon. Gweler tudalen 5



Dyma deulu bach Ystrad, Blaengeuffordd, a'u gweinidog y Parchg Wyn Morris ym medydd eu baban Manon Grug ar 27 Ionawr.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Rhodri Morgan**
Maes Mieri, Llandre, ☎ 828 729
rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Bryn Roberts**
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 46 Bryncastell ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dai Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Mawrth

**Deunydd i law: Mawrth 8 | Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 21**

**MAWRTH 1** Nos Wener Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas Gymraeg Y Borth yn Nhŷ Bwyta, Y Maes, Capel Bangor am 7.30. Gŵr a Gwraig Wadd: John a Mary Price, Machynlleth. Enwau i Llinos -871615.

**MAWRTH 2** Nos Sadwrn Noson o gawl a chân i ddathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Aelwyd Bro Ddyfi yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Gweinir y cawl am 6.30 o'r gloch. Oedolion: £6.00 Plant ysgol: £2.00 Gellir archebu tocynnau drwy ffonio (01970) 832 448

**MAWRTH 7** Dydd Iau Diwrnod y Llyfr

**MAWRTH 9** Nos Sadwrn Plaid Cymru Cangen Rhydypennau. Cawl a Chân Gŵyl Ddewi yn Cedrwydd, Llandre o 7pm ymlaen. Bwyd, diod ac adloniant. £10 y pen a phlant am ddim. Croeso i aelodau a ffrindiau. Enwau i anwenmai@hotmail.co.uk erbyn 5 Mawrth.

**MAWRTH 9** Dydd Sadwrn Cymdeithas Aredig Gogledd Ceredigion. Diwrnod aredig i'w gynnal yn Fferm Pencaerau, Rhos-y-garth, Llanilar. Aredig i ddechrau am 10.00 y bore. Am ragor o fanylion cysylltwch â Phyllis Harries 01974 202 308

**MAWRTH 16** Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn Gŵr gwadd : R. Arwel Jones (Rocet) yng Ngwesty'r Richmond, Aberystwyth. Manylion gan ac enwau i Ceris Gruffudd (828017 Rhoshelyg@btinternet.com) cyn Mawrth 10fed

**MAWRTH 16** Bore Sadwrn Bydd sêl cist car Neuadd Rhydypennau yn ailddechrau 8 tan 12. ac yna pob pythefnos.

**MAWRTH 21** Nos Iau Theatr Bara Caws yn cyflwyno Hwyliau'n codi yn Neuadd Goffa Tal-y-bont am 7.30. Tocynnau: Falyri Jenkins 832560

**MAWRTH 24** Nos Sul Cyngerdd Dathlu'r 20 Ysgol Gerdd Ceredigion ac artistiaid gwadd yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau am 7.00 Tocynnau £15, plant £7.50

# Eisteddfodau'r Urdd 2013

## Cylch Aberystwyth a Rhanbarth Ceredigion

**MAWRTH 5** Dydd Mawrth Rhagbrofion Eisteddfod Gynradd am 9.15 ac Eisteddfod Uwchradd yr Urdd cylch Aberystwyth am 3.30 yn Ysgolion Penweddig, Plas-crug a'r Ysgol Gymraeg.

**MAWRTH 6** Dydd Mercher Eisteddfod Ddawns Uwchradd (10.15)yb a Cynradd (11.30yb) ac Eisteddfod Cynradd cylch Aberystwyth yn Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau (o 2.00 ymlaen)

**MAWRTH 7** Dydd Iau Eisteddfod Offerynnol uwchradd (9.15yb) a cynradd (1.15yp) cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Pen-glais

**MAWRTH 15** Dydd Gwener Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid o 9.15 y b

**MAWRTH 18** Nos Fercher Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion Aelwydydd yr Urdd yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth am 5.30.

**MAWRTH 20** Prynhawn Mercher Eisteddfod Ddawns Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 1.30

**MAWRTH 23** Dydd Sadwrn Eisteddfod cynradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00

### Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street
(☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

y tincer

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Ionawr 2013
£25 (Rhif 117) Tom Davies, Tyncwm, Capel Dewi
£15 (Rhif 79) Wendy Reynolds, 63 Ger-y-llan, Penrhyn-coch
£10 (Rhif 239) Ceris Gruffudd, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Ionawr 16.

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan, os am fod yn aelod.

Am restr o Gyfeillion y Tincer gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

### Gweithdy Newyddiadurol i Oedolion

Mae Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn trefnu gweithdy newyddiadurol gyda Karen Owen – cyn olygydd y cylchgrawn Golwg – yn Aberystwyth ar nos Fawrth, Ebrill 16 rhwng 5.30 a 8.30 yr hwyr. Y bwriad yw annog pobl i gystadlu mewn eisteddfodau lleol ar gystadlaethau fel ysgrifennu erthygl i bapur bro. Mae erthygl o'r fath yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch http://www.trefeurig.org/uploads/rhagleneist2013pcoch.pdf Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch yn syth gyda Dana Edwards (dana@steddfota.org) 01970 623003 gan taw lle i 20 yn unig sydd yn y gweithdy a'r cyntaf i'r felin gaiff falu!

### Grwp 'Te Sul' Aberystwyth

Ydi pnawn Sul yn teimlo'n hir weithiau? Ydach chi'n hŷn na 75+? Yn byw ar ben eich hun? Mae grŵp 'te Sul' yn Aberystwyth yn galw am aelodau newydd i ymuno â nhw. Mae'n rhad ac am ddim i fod yn rhan o'r grŵp. Pob mis bydd gwirfoddolwr yn eich casglu o'ch cartref ac yn mynd gyda chi i ymuno hefo gweddill criw bychan o bobl am de a sgwrs. Cyfle gwych i dreulio pnawn o sgwrsio, chwerthin a chyfnewid hanesion mewn criw bach o bobl debyg dros baned a te ysgafn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda Jane C Evans, Cyswllt â'r Henoed 01766 522136




## 20 MLYNEDD YN OL

Daeth Alun Jones, Clawddmelyn, Penrhyn-coch i'r brig mewn cystadleuaeth yn Ffair Aeaf De Tew Cymru a gynhaliwyd yn Llanelwedd cyn y Nadolig. Enillodd y wobr gyntaf am y pâr gorau o ŵyn tew mewn cystadleuaeth agored yn adran y Defaid Mynydd Penfrith allan o rhyw ddwsin o gystadleuwyr ar ei gynnig cyntaf. Da iawn Alun! Dyma Alun gyda Mr Robert Rattray, Aberystwyth, y bwtsier a brynodd yr ŵyn tewion. (O Dincer Chwefror 1993)

### Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion

Rihyrsals am 7.00
**Mawrth 20** Bethel, Tal-y-bont
**Mawrth 27** Bethel, Aberystwyth
**Ebrill 10** Capel y Garn
**Ebrill 17** Seion, Aberystwyth
**Ebrill 24** Horeb, Penrhyn-coch
**Mai 8** Capel y Morfa, Aberystwyth

### Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion

**Mai 12 2013**
Capel y Morfa, Aberystwyth
**Arweinydd**: Margaret Daniel
**Organydd**: Mary Jones Morris
10 y bore a 5.30 yr hwyr

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

### Y Tincer ar dâp

Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu.

Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

# LLANDRE

### Banc Bro - Hwb Arall i'n Cymuned

Mae'r ymateb rhagorol i'r apêl am aelodau i Glwb 50 y Banc Bro yn adlewyrchu'r gefnogaeth sy'n bodoli i gynnal gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol yn ein cymuned. O ganlyniad penderfynwyd codi'r gwobrau misol sy'n cael eu rhannu i £30, £20 a £10 (ag eithrio mis Awst) a £60, £40 a £30 ym mis Rhagfyr. Bydd hanner arall yr incwm yn cael ei fuddsoddi yn y gymuned trwy ddigwyddiadau'r Banc Bro. Diolch i bawb o'r 62, sy'n cynrychioli trawsdoriad o bobl yr ardal, am weld yn dda i fuddsoddi yn ein cymuned drwy ymuno â'r Clwb. Mae cyfle i aelodau newydd eto i ymuno drwy dalu £2 y mis a gellir gwneud hynny drwy gysylltu â'r Trysorydd David England, Pant-y-glyn 01970828693 daiamair@pantyglyn.freeserve.co.uk

**Enillwyr**
**Ionawr 2013**
1. £30. Menna Edwards, Penygroes
2. £20. Margaret a Glyn Williams, Bryngolau
3. £10. Elina Davies, Bronallt

**Chwefror**
1. £30. D Bryn Lloyd, Maesceiro
2. £20. Owen Watkin, Maeshenllan
3. £10. Trefor Owen, Croes-y-ceiliog

### Cefngwlad

Rhoddwyd sylw arbennig i gymuned Llanfihangel Genau'r-glyn ar Raglen Cefngwlad ar S4C nos Lun 28 Ionawr pan fu Dai Jones Llanilar yn dilyn diddordebau Wynne Melville Jones. Ffilmiwyd y rhaglen fis Mai diwethaf ac mae'n canolbwyntio yn bennaf ar ei weithgaredd celf a'i ddiddordeb mewn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol Cymraeg.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Elina Davies, Bronallt a'r teulu, ar golli cyfnither yng Nghartref Abermad mis diwethaf. Hefyd Pat Kelly, Maeshenllan a'r teulu, ar golli chwaer Pat, sef Wendy Richards, Cae'r Odyn, Bow Street. Hefyd teulu Daisy Dryburgh, Maeshenllan a fu farw yn Ysbyty Bron-glais.

### Genedigaeth

Croeso i Evangelina Susan, merch James ac Amy ac wyres gyntaf i Andrew a Susan, Sunmead, Lôn Glanfred.

### Merched y Wawr Genau'r-glyn

Brecwast yw'r pryd a gysylltir â'r wawr yn arferol ond yn nhymor oer y gaeaf gellir dadlau nad yw'r wawr yn torri'n gynnar iawn. Felly ar brynhawn Sadwrn yng nghanol mis Ionawr daeth nifer o aelodau Merched y Wawr Genau'r-glyn yn 'Ladies who Lunch'. Bwyty'r Maes, Capel Bangor oedd y lleoliad i'n dathliad Flwyddyn Newydd ac er bod y rhew a'r eira'n drwch yn yr awyr roedd croeso teulu'r 'Maes' yn gynnes iawn. Cafwyd pryd blasus a mawr oedd y disgwyl am y dewis o bwdinau oedd ar gael - ni siomwyd neb - digon yw dweud fod y lemon meringue a'r darten afal wedi gwerthu allan! Roedd y sgwrs dros ginio mor felys â'r pwdinau a chafwyd sawl trip rownd y byd yn egluro cysylltiadau teuluol y naill a'r llall. Cyn troi am adref enillwyd y raffl gan Megan Davies a diolchodd Gwenda i Linda am ei threfniadau trylwyr ac i staff y 'Maes' am eu gwasanaeth. Byddwn yn ymuno â Changen Merched y Wawr, Aberystwyth ar y 18fed o Chwefror. Nodwch y newid dyddiad yn ein cyfarfod fis Mawrth - 11 Mawrth ble byddwn yn paratoi tuag at y gwanwyn a'r Pasg.



Diolch i Brian Davies - awdur Salem Soldier am yrru y llun yma o Sal Magor yn gweithio gyda'i gŵr Alcwyn yn adeiladu eu byngalo newydd yn Llandre ym 1958. Roedd y ddau yn adnabyddus iawn yn yr ardal fel eisteddfodwyr mawr. Roedd Alcwyn yn llwyddiannus yn adrodd digri mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol.

**GRŴP MEDDYGOL YSTWYTH**

Mae Grŵp Meddygol Ystwyth ar fin symud yn ôl o safle Gogerddan i'w lleoliad yn Aberystwyth O ddydd Llun 4 Mawrth ymlaen caiff clinigau eu cynnal yn eu heiddo gwreiddiol ym Mharc-y-llyn. Yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn 25 Chwefror byddant yn gweithredu yn ôl yr arfer, gan gynnwys apwyntiadau ymlaen llaw a brys, dydd Llun - dydd Mercher. Ond gan eu bod yn symud eiddo dim ond apwyntiadau brys fydd ar gael ddydd Iau 28 Chwefror a dydd Gwener 1 Mawrth.

Maent yn disgwyl cadarnhad ynglŷn â lleoliad yr apwyntiadau brys ddydd Iau a dydd Gwener, ond am resymau iechyd a diogelwch ni fydd apwyntiadau ar eu safle ym Mhenrhyn-coch dydd Gwener 1 Mawrth.

Gofynant yn garedig i gleifion heb apwyntiad brys beidio a dod i'r feddygfa ddydd Iau 28 Chwefror a dydd Gwener 1 Mawrth.

Dylai cleifion sicrhau fod presgripsiynau, nodau a llythyrau salwch ac ati'n cael eu casglu erbyn 15.00 ddydd Mercher 27 Chwefror neu o'r safle yn Aberystwyth ar ôl 10.00 ddydd Llun 4 Mawrth.

Os oes angen meddyginiaeth amlroddadwy arnoch, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r cais am bresgripsiwn i mewn heb fod yn hwyrach na 10.00 ddydd Mercher 26 Chwefror gan na fydd presgripsiynau'n cael eu prosesu eto tan ar ôl 10.00 ddydd Llun 4 Mawrth.

Gwesty'r Llew Du
Black Lion Hotel
Talybont, Ceredigion, SY24 5ER
Bwyty a Bar Newydd!
Cinio 12 - 2.30
Dau gwrs am £10 y person
Mercher i Sadwrn
Swper Nos 6 - 9
Mawrth i Sadwrn
Cinio Sul 12 - 3
Prydau o £9
Galwch heibio!
01970 832 555
www.gwestyllewdu.com

# GOGINAN

### Bedydd

Ar y 6 o Ionawr bedyddiwyd Hollie Evelyn Bevan o Goginan yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor gan y Parchg Ian Girling. Yn dilyn hynny aeth teulu a ffrindiau yn ôl i Glwb Cymdeithasol Penrhyn-coch ar gyfer lluniaeth. Byddai Simon a Katie yn hoffi diolch i bawb am ddod ac am eu rhoddion hyfryd i Hollie, ac i'r holl staff yng Nghlwb Penrhyn-coch am y bwyd hyfryd. Yn y llun gwelir Katie a Simon ,y brawd mawr Sean a Hollie.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Val Evans, Mark a Lee, Gwarllan, ar farwolaeth chwaer yng nghyfraith Val.

### Llwyddiant Tafarn y Druid

Bu rheswm i dafarn y Druid ddathlu'n ddiweddar, 38 "heb fod allan". Nid ffigwr criced oedd hyn ond y rhif o flynyddoedd y mae'r dafarn wedi ei chynnwys yn llyfr "Cyfarwyddo Cwrw Casgen "heb doriad. Nid oes llawer o dafarnau yng Nghymru, nag hyd yn oed ledled Prydain yn medru bostio'r fath gysondeb.

I ddathlu'r orchest arwyddocaol, cyflwynodd Cymdeithas Ceredigion o CAMRA, sef y Gymdeithas sydd yn hyrwyddo Cwrw yma, dystysgrif i Lewis Johnston, tafarnwr presennol y dafarn i nodi'r dathliad. Ar y diwrnod daeth yfwyr cwrw o bell ac agos i flasu gwahanol fathau o Gwrw Casgen ac fe gafwyd diwrnod hwyliog a llwyddiannus gan bawb.

### Tyllau mewn Un

Cyflawnodd Aled Bebb, Penpistyll orchwyl anhygoel yn ddiweddar yn y Clwb Golff yn Aberystwyth. Fe gafodd "Dwll mewn Un" ddau ddiwrnod yn olynol ar wahanol dyllau. Breuddwyd amryw golffwr yw cael un yn ei oes ond i gael dau roedd yn anghyffredin iawn.





Dyma gadair fawr gyrhaeddodd Bwlch Nant yr Arian yn ddiweddar. Cafwyd y gadair ar ôl gweld un debyg yn Coalford, Coedwig Dean. O ddilyn Llwybr y Grib fe ddowch i'r gadair; gellir dringo arni - mae lle i tua chwech eistedd arni. Mae'r ail lun yn dangos yr olygfa oddi arni fore Sul 17 Chwefror

## Cronfa Eleri 2012

Bellach mae Cronfa Eleri wedi bod yn cefnogi achosion lleol yn flynyddol ers 1998. Bob blwyddyn bydd pwyllgor Y Gronfa yn argymell i gwmni Amgen, sy'n gyfrifol am fferm wynt Mynydd Gorddu, pa gynlluniau y dylid eu cefnogi. Yn aml bydd y pwyllgor yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd, gan na fydd digon o arian ar gael i ateb gofynion pob cais yn llawn. Ystyrir yn fanwl iawn pa gynlluniau sy'n cyfrannu fwyaf at hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu. Yn ystod y cyfnod hwn cefnogwyd 150 o gynlluniau - nifer ohonynt yn llwyddo i ddenu cefnogaeth o gronfeydd eraill hefyd, gyda arian Cronfa Eleri yn gymorth iddynt wneud hynny, Mae'r cyfanswm a gyfranwyd bellach dros £184,000. Fel arfer, dim ond cefnogaeth i gynlluniau penodol a roddir, nid arian refeniw i waith pob dydd y sefdliadau a gefnogir.

Cyhoeddwyd yn ddiweddar y rhai llwyddianus yn eu ceisiadau i rannu'r £15,000 oedd ar gael ar gyfer y flwyddyn gynhyrchu ddiweddaraf, sef 2012. Rhain oedd: Eglwys Penrhyn-coch; Capel Bethel Tal-y-bont; CFfI Tal-y-bont; Horeb Penrhyn-coch; Henoed Llandre; Biosffer Dyfi; Cwmni Clettwr; Treftadaeth Llandre; Ysgol Tal-y-bont Bydd hysbysebiad am geisiadau ar gyfer 2013 yn cael ei gyhoeddi yn yr Hydref. A oes gennych chi gynllun a allai fanteisio ar Gronfa Eleri?

Am unrhyw wybodaeth pellach dylid cysylltu â: Ysgrifennydd Cronfa Eleri, Garreg Wen, Tal-y-bont, SY24 5HJ.
e-bost: ymholiadau@cronfaeleri.com
Gwefan: www.ynniamgen.com/

# TREFEURIG

### Brysia wella

Dymuniadau gorau am wellhad buan iawn i Angharad Fychan, Glanrafon, sydd wedi cael anaf i'w throed yn ddiweddar.

### Y Pum Cenhedlaeth

Mae'r siawns o fod yn un o bum cenhedlaeth unwaith mewn bywyd yn achlysur i'w ddathlu, ond i Marion Jones, Nantlais, dyma'r eilwaith iddo ddigwydd iddi hi. Yn y llun du a gwyn gweler yr aelod hynaf o'r teulu sef Elizabeth Morgan (a anwyd ym 1875 sef Mam-gu Marion), gyda'i mab James, ei ferch Marion, a'i merch hithau Edwina, a'r ieuengaf yn y llun, sef Shân (ganwyd 1961).
Yn y llun lliw diweddaraf, Marion ei hun yw'r hynaf o'r teulu (ganwyd 1920), gyda'i merch Edwina, ei merch hithau sef Shân (babi'r llun du a gwyn), a'i merch Hanna a'i mab Jac (ganwyd ym 2011) sef yr ieuengaf.





# PENRHYN-COCH

**Oedfaon Horeb**

*Chwefror*

24 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog

*Mawrth*

3 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
10 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
17 2.30 Oedfa bregethu Y Parchg Peter Thomas
24 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog
31 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 27 Chwefror. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Cymdeithas y Penrhyn

Nos Fercher 16 Ionawr bu'r Prifardd Hywel Griffiths, Tal-y-bont, yn darllen a thrafod ei farddoniaeth yn y cyfarfod. Cyfeiriodd at yr ardal lle y magwyd ef - Llangynog, ger Caerfyrddin, ardal wledig rhwng yr afonydd Tywi a Thaf. Roedd yn meddwl i'w ddiddordeb mewn daearyddiaeth ddatblygu o'r ffaith iddo ef a'i dad fapio yr afon fechan a redai ger y fferm pan oedd yn fachgen bach. Roedd nifer o'i gerddi wedi eu hysbrydoli gan y tir - o gwmpas ei gartref (e.e. Ffynnon) ac mewn ardaloedd y bu yn gweithio ynddynt - Pentref, Ystog a a Penrhyn Deuddwr. Gyda newid yr amgylchedd yn bwnc mawr ymchwil gwyddonol, ac yntau yn gweithio bellach mewn adran yn delio gyda effaith y tywydd roedd y pynciau yma ac effaith hynny ar bobl yng nghefn gwlad Cymru wedi ysbrydoli cyfres o gerddi. Cyfeiriodd hefyd at y ffilm The day after tomorrow (2004) oedd wedi dylanwadu arno.

### Enillydd

Llongyfarchiadau i Max Jenkins,Ger-y-llan, ar ennill y cwis Pobl enwog drefnwyd gan Eglwys St Ioan

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Elizabeth Evans, Taliesin, ar farwolaeth ei mam ddiwedd Rhagfyr ac â Max Jenkins, Ger-y-llan sydd wedi colli cyfnither yn Swydd Efrog.
YMA O HYD!

### Merched y Wawr

Ar nos Iau 10fed Ionawr, aethom i'r Maes yng Nghapel Bangor i gael ein cinio blynyddol. Cawsom groeso cynnes gan Andrew, Heather a'r staff. Roedd llawer o'r aelodau yn bresennol. Ein gwraig wadd am eleni oedd Mrs Delyth Morris-Jones o Bonterwyd. Croesawyd Delyth gan ein Cadeiryddes, Mrs Mair Evans, ac fe gawsom y fendith gan y Parchg Judith Morris. Cawsom bryd o fwyd blasus iawn, ac fe enillwyd y raffl gan Sue Hughes a Glenys Morgan. Ar ôl ein pryd bwyd, cawsom sgwrs ddiddorol iawn gan Delyth am dair ardal o amgylch Ponterwyd, ac mi ddaeth a rhai hen lyfrau gyda hi i ni gael eu gweld. Diolchwyd i Delyth Morris-Jones ac i staff 'Y Maes' gan Delyth Jones.

### Urdd y Gwragedd, Penrhyn-coch

Cafwyd noson yng nghwmni Chris a Dwynwen Belsey ym mis Ionawr, yn dangos ffilm a wnaed gan Gymdeithas Fynyddig y Cambria. Dangoswyd harddwch ardal Elenydd sydd yn ymestyn o Lanymddyfri i gyrion Machynlleth. Noson ddiddorol a golygfeydd ardderchog.

### Noson Gwis

Ar noson aeafol o wynt a glaw, daeth naw tîm ynghyd i neuadd yr eglwys i'r noson Cwis, Gwin a Chaws. Braf oedd gweld y neuadd yn llawn gyda chynrychiolaeth dda o wahanol gymunedau'r pentref ynghyd, gyda Robert Hughes Jones wrth y llyw fel cwis feistr. Enillwyr y rhan gyntaf o'r noson oedd tîm Yr Ymddeolwyr, a Chapel Horeb oedd buddugwyr yr ail hanner. Diolch i bawb a gymerodd ran, cafwyd tipyn o hwyl ac amser i gymdeithasu.

### Cylch Meithrin Trefeurig

Ein thema y tymor yma yw Dathlu. Bu'r plant yn brysur yn creu addurniadau ar gyfer Dydd Santes Dwynwen a'r Flwyddyn Newydd Tseiniaidd. Cafodd y plant y cyfle i flasu bwyd Tseiniaidd, ac fe wnaeth rhai geisio bwyta gyda chopsticks!

Mae dau plentyn newydd wedi ymuno a'r



Brownies Penrhyn-coch gyda Beverly Dimmock, Swyddog o Warchodfa Natur Ynys-hir ar ôl iddynt wneud blychau a bwyd ar gyfer yr adar.





Cylch, croeso i Lalita a Poppy Rae.

Daeth y Parchg Judith Morris i adrodd stori i'r plant ar y dydd Gwener cyn hanner tymor. Mwynhaodd y plant glywed am Mair a Martha a chymryd rhan yn y stori.

### Ennill Cadair

Llongyfarchiadau i Carys Mair Davies, Aberystwyth ( enillydd Tlws yr Ifanc Eisteddfod Penrhyn-coch 2007 a 2008) ar ennill cadair Eisteddfod Cenarth ddechrau Chwefror. Mae Carys, raddiodd yn y Gyfraith y llynedd ym Mhrifysgol Caerdydd yn dilyn cwrs Ymarferwyr Cyfreithiol (LPC) ac roedd cysylltiad teuluol ganddi â Chenarth. 'Roedd ei thad-cu (ochr ei thad) yn mynd i'r capel yno pan oedd yn fachgen, ac 'roedd ei hen dad-cu yn godwr canu yno.

### Sioe Penrhyn-coch

Nos Wener yr 8fed o Chwefror fe gynhaliwyd Cinio Blynyddol Sioe Penrhyn-coch yn Nhafarn y Gors. Treuliwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni ffrindiau. Fe groesawodd Dai Rees Morgan bawb ar gychwyn y noson ac ar ddiwedd y noson gyda'i hiwmor arferol. Cafwyd cinio i ryfeddu a chroeso cynnes iawn gan berchennog a staff y dafarn. Diolchwyd ac ategwyd geiriau Dai Rees gan Mairwen yn ei dull hi fel arfer. Aeth pawb gartref wedi llwyr fwynhau y noson.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Anita Pugh, 9 Tan-y-Berth, a gafodd ddamwain yn ei chartref a thorri ei hysgwydd.
Hefyd Irene Taylor, 4 Tan-y-Berth, a gafodd driniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.
Mae amryw wedi bod yn dioddef salwch yn yr ardal. Daliwch wella mae'r gwanwyn ar droed!

### Ennill Ysgoloriaeth

Mae Cerys Humphreys wedi ennill lle ar Gymrodoriaeth Winston Churchill, i wneud gwaith ymchwil yn Awstralia ar ymyrraethau byr alcohol a thybaco. Bydd Cerys yn ymweld â'r wlad am fis, ac yn edrych ar sut y maent fel gwlad, wedi llwyddo i ostwng y nifer sy'n ysmygu ac yn yfed alcohol yna, yn enwedig mewn Awdudrodau Lleol gwledig, er mwyn dod a'r arfer da nôl i'r wlad yma. Bydd hi hefyd yn ymweld â'r mudiadau hynny sy'n gweithio gyda Aboriginies (sy'n boblogaeth â nifer uchel yn goryfed ac ysmygu), i weld sut y maent hwy yn gweithio er mwyn goresgyn y broblem yma.

Mae Cerys hefyd wedi ennill lle ar gynllun datblygu merched i swyddi rheolwyr uwch gyda Chwaraeon Cymru. Rhaglen dwy flynedd yw hon, a bydd yn rhaid i Cerys fynychu gweithdai a chael ei mentora dros y ddwy flynedd, er mwyn datblygu sgiliau rheolaeth uwch.



Tracy Exley, yn cyfarfod â Rhian Madamrygbi Davies yng Ngaerdydd yn 2011 Gaerdydd 2011, diwrnod gem Cymru yn erbyn Iwerddon.
t.7 Gweler adolygiad o gyfrol Madamrygbi ar t.17

### Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch

Bu Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch yn llwyddiannus yn cael £14,600.00 gan WGI ar gyfer eu prosiect i roi seti newydd yn y stand presennol a chodi stand newydd 150 sedd y tu ôl i'r gôl waelod.

Mae cost y cynllun yn tua £50,000.00 a gyda'r Clwb yn bwriadu rhoi cais am grant gyfalaf i Gyngor Sir Ceredigion yn y flwyddyn ariannol newydd maent yn obeithiol y byddant yn barod i allu dechrau gwaith ar y cynllun yn y tymor agos.

Dyma fydd Rhan gyntaf y prosiect - ehangu yr ystafelloedd newid fydd Rhan 2 trwy eu ehangu a chael Ystafell Cymorth Cyntaf a gwella cyfleusterau arlwyo ar y cae. Datblygu Swît Lletygarwch ar y cae a lle gwylio dan do ychwanegol fydd Rhan 3.

### Lansio cyfrol newydd

Bydd cyfrol newydd yr awdur Niall Griffiths A Great Big Shining Star (Jonathan Cape) yn cael ei lansio yn y Siop Lyfrau, Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth am 6.30 nos Iau 21 Chwefror.



### Horeb

Cafwyd oedfa arbennig brynhawn Sul 20 Ionawr pan ddewisodd rhai aelodau eu hoff adnod neu emyn a thraethu yn fyr arnynt. Roedd rhai wedi dewis emyn lle oedd cysylltiad teuluol gyda'r awdur - 'roedd John Roberts wedi bod yn weinidog a bedyddio Sue (ddewisodd Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr) ac roedd yr emyn yn golygu llawer i'r teulu, ac E. Llwyd Williams wedi bod yn weinidog ar rieni Eirian yn Rhydaman (ddewisodd Pwy fydd yma 'mhen can mlynedd).
Dewisodd Peter Cân Non - cyfansoddodd y geiriau fel 'Gofynnwch ac fe roddir i chwi' ( gyda cherddoriaeth gan Nia Mair Lewis) fel teyrnged i Non Taylor oedd wedi brwydro yn erbyn afiechyd a dod i bob ymarfer a chanu yng Nghorws Gorfoledd yn Undeb Llambed yn 2002. Bu Non farw yn 2004 a darllenodd y gerdd yn ei hangladd. Chwaraeodd CD o'r perfformiad yn Llambed - gyda Tirion Lewis (oedd yn bresennol yn yr oedfa) yn canu y pennill cyntaf a Rhys, mab Non yn canu y clarinet.
Darllenodd William ferswn dafodieithol Jacob Davies o ddameg y Mab Afradlon - 'Yr hen foi a'r ddou grwt' a soniodd hefyd am y dôn Bryngogarth - roedd ganddo lun o'r cyfansoddwr, William Roberts, gyda chôr plant Bethania. Aberteifi nos Nadolig 1909. Yn y llun gwelir Ceri gyda darn o 'Calon lân' - ei hoff emyn hi a ganwyd mewn sawl achlysur teuluol.

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Gwasanaethau'r Sul Capel Pen-llwyn**

*Chwefror*
24 Oedfa'r Ofalaeth – Gŵyl Ddewi - Garn 10 yb

*Mawrth*
3 Bugail am 10 yb
10 Huw Roderick am 10 yb
17 Bugail am 5 yh
24 Bugail am 5 yh
29 Oedfa'r Ofalaeth – Groglith – Pen-llwyn 10 yb
31 Oedfa'r Ofalaeth – Pasg – Garn 10 yb



## Bugail

Ar Ionawr y 6ed, cafwyd yr oedfa gyntaf gan y Parchedig Wyn Morris, ein gweinidog newydd. Croesawyd ef yn gynnes iawn gan Mrs. Heulwen Lewis, ac edrychwn ymlaen i'r Gwasanaeth Sefydlu ar Mawrth 2il am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

## Y Llon a'r Lleddf

Llongyfarchiadau i'r canlynol sy'n dathlu genedigaeth eu babanod.

Geraint a Marie Williams, Nantfach, merch – Hanna Lois, chwaer fach i Erin.

Rachael a Ben Williams, Penlan, bachgen – Jac Benjamin, hanner brawd bach i Rebecca, Laura ac Evan.

Siân a Rodney o Awstralia, merch fach – Kiah (ŵyres i Margaret, Tynllidiart). Daethant yma i'r enedigaeth, pan oedd y tymheredd yno yn 40°, a ninnau yma yn -4° ar y pryd!! Tipyn o ffeithiau ychwanegol, 'roedd modd ffrio ŵy ar y cwrt tennis ym Mhencampwriaeth Agored Awstralia, y pryd hwnnw!! Anodd iawn yw dychmygu sut wres.

Dymuniadau gorau i'r tri theulu bach.

## Marwolaethau

Bu farw tad Mrs. Verina Williams, Cefnllidiart, sef Mr. Roy Winston Jones, Nantmel, a hithau wedi colli ei mam yn ddiweddar iawn. Cydymdeimlwn â Verina, y plant a'r ŵyrion.

Hefyd, estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Murmur y Coed a Maesmelindwr ym marwolaeth Mrs. Daisy Dryburgh, Llandre. 'Roedd "Gran" yn berson arbennig iawn iddynt fel teulu, ac yn ymwelydd cyson â'r ardal, sef ardal ei mebyd. Meddyliwn amdanynt i gyd yn eu hiraeth.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Gareth Morgan, Cae'r Wylan, (Dolberllan, Blaengeufforddd gynt) sydd wedi bod yn yr ysbyty am rai wythnosau, yn yr Uned Gofal Dwys am gyfnod, ond allan yn y ward bellach. Gobeithiwn pan ddaw'r papur o'r wasg y bydd yn well ac ar ei ffordd adre. Cofion gorau iddo.

## Enillwyr Clwb 100 Cylch Meithrin

*Mis Tachwedd*
1af - Lily Macy, Rheidol View, Pontarfynach
2il - Davy Alban, Hafod Peris, Llanrhystud
3ydd - Geraint Williams, Nantfach, Capel Bangor
4ydd - Malen Davies, Tyddyn Llwyd, Pontarfynach
*Mis Rhagfyr*
1af - Alun Alban, Hafod Peris, Llanrhystud
2il - Lowri Griffiths, 12 Stad Pen-llwyn, Capel Bangor
3ydd - Rhodri Davies, Gwalia, Llywernog
4ydd - Sean Bevan, Miramor, Goginan

Mae y Cylch Meithrin yn bwriadu cynnal Helfa Wyau Pasg yn Ysgol Mynach, ar y 24ain Mawrth, 3 – 5 yh.

## Ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau na gyhoeddwyd y llun yma a dynnwyd gan Mr Malcolm Richards y mis diwethaf - dyma'r Parchg Ronald Williams yn cyflwyno anrheg i Mr Gwynfor Jones a fu'n ysgrifennydd yr Eglwys am 37 mlynedd ar ran aelodau'r Eglwys.

## Mwy o Galennig

Yn ychwanegol i rigymau Calennig y mis diwethaf, dyma un arall isod, y bu Alaw a Llŷr, Pwllcenawon yn ei ganu (yn wreiddiol gan mam-gu Nia, eu mam).

Ar ddydd cyntaf flwyddyn newydd
ar ein tro y deuwn ni
ac i'ch cyfarch yn galonnog
Blwyddyn Newydd Dda i chi.

Heulwen ddisglair fo yn gwenu
Ar eich aelwyd dedwydd chi
2013 a fo yn flwyddyn
Dda lewyrchus yn tŷ chi.



Bethan Antoniazzi (née Thomas), Avril Davies, Sandra Beechey (née Thomas), Meinir Davies (née Jones), Magdalen Huws, Carys Jenkins (née Edwards). Y tu allan i dŷ Miss Hamer ym Mhenrhyn-coch. ca 1960.



Carwyn Jones, Y Ddôl Fach, Penrhyn-coch yn canu am galennig eleni

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Aelwyd newydd

Croeso mawr i ddau deulu newydd i ben uchaf Cwmrheidol, sef Pencnwch a Tŷ Melyn. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith. Nid oes neb wedi bod yn byw ym Mhencnwch ers nifer fawr o flynyddoedd gan ei fod yn berchen i deulu Woods o Coventry a oedd yn y dyddiau cynnar yn treulio llawer iawn o wyliau'r plant yno. Erbyn hyn mae pethau wedi newid a'r plant wedi colli diddordeb a daeth yn amser i'w werthu. Pâr ifanc o dde Lloegr yw y perchnogion newydd. Dymuniadau gorau i Sylvia Smith, Tŷ Melyn, yn ei chartref newydd yn Bow Street.

### O'r ysbyty

Da yw gweld Mair Stanleigh, Dolfawr, yn ôl yn ei chartref unwaith eto ar ôl treulio peth amser yn yr Ysbyty.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ceredig, Glenys a Rhys, Ty'n Wern, ar enedigaeth eu hŵyr a nai bach cyntaf Jac Benjamin, mab i Benjamin a Rachel.

### Urdd y Benywod

Mwynhawyd ein cinio Nadolig eleni yn Y Maes Capel Bangor. Croesawodd Beti Daniel bawb i'r noson a thraddodwyd gras gan Mike Maloney. 'Roedd y wledd yn hyfryd a diolch i Lorraine Maloney am drefnu y noson. Nos Lun gyntaf yn Chwefror cawsom noson yng nghwmni Sara a Mark Dyer, y Llain. Llynedd bu y ddau am bum mis yn trafaelio y byd a hanes eu hamser yn Nepal a gawsom. Roedd y tywydd yn debyg iawn i haf yng Nghymru ond 'roedd eu profiadau o fywyd yn Nepal yn ysgytwol. 'Roedd Marc wedi bod yn brysur iawn drwy gydol y nos yn paratoi bwyd traddodiadol Nepal ar ein cyfer a chafwyd llawer o hwyl yn blasu y danteithion yma. Diolch yn fawr iawn i'r ddau am noson ardderchog ac addysgiadol iawn

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad a John Sambrook, Llynddu, ar farwolaeth ei fam yn ddiweddar.

### Swydd newydd

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Olwen Fowler, Gelli-fach, yn ei swydd newydd yn Adran Ddylunio y Cyngor Llyfrau.

### Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i John a Carol Marshall sydd erbyn hyn wedi cyrraedd Seland Newydd ar gyfer priodas perthynas i Carol.

## DÔL-Y-BONT

### Gwella

Braf yw gweld Gareth Morgan, Glenside, adref ac yn well ar ôl bod am rai diwrnodau yn Ysbyty Bron-glais yn ystod mis Ionawr.

**Dewch i ddathlu Gŵyl Ddewi mewn noson o gawl a chân**

yng nghwmni

**Aelwyd Bro Ddyfi**

nos Sadwrn, 2 Mawrth
yn Neuadd Goffa Tal-y-bont.
Gweinir y cawl am 6.30 o'r gloch
**Oedolion**: £6.00
**Plant ysgol**: £2.00

Gellir archebu tocynnau drwy ffonio
**(01970) 832 448**

**YN EISIAU**

**ar gyfer Medi 2013**

Trefnydd Busnes i'r Tincer
Am fwy o fanylion cysyllter
â'r Ysgrifennydd


**Morlan**
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**

- C21 yn Morlan (7.30, 27 Chwefror a 13 Mawrth)
- Arddangosfa gan Brosiect Celf Plas Lluest (Chwefror a Mawrth)
- Rhanna Rodd (12-2, 8 Mawrth; 10-12, 9 Mawrth). Yn ystod Pythefnos Masnach Deg, beth am rannu rhodd gyda rhai sy'n llai ffodus na chi trwy gyfrannu eitem Masnach Deg i Fanc Bwyd Aberystwyth. Cewch baned yn gyfnewid am eich rhodd! Nwyddau sydd ag oes hir yn unig plîs. Diolch!

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk
**CROESO CYNNES I BAWB!**
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

**Iwan Jones**
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
**helen.iwan@btinternet.com**
01970 832760

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
**GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH**
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

GWASANAETH
**TEIPIO**
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
**IONA BAILEY**
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

CTE
**C. TREFOR EVANS**
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

**SWYDDFA'R POST BOW STREET**
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

**Gwaith Bricio**
**R+R**
Adeiladau newydd, Estyniadau, Gwaith Carreg, Patios
Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473

# BOW STREET

*Chwefror*
24 Oedfa'r Ofalaeth - Gŵyl Ddewi

*Mawrth*
3 John Roberts
10 Roger Ellis Humphreys Bugail (Cymun)
17 Bugail Beti Griffiths
24 John Tudno Williams
31 (Sul y Pasg) Oedfa'r Ofalaeth Bugail

**Noddfa**
*Chwefror*
24 Uno yn y Garn am 10.00

*Mawrth*
3 Uno yn y Garn am 10.00
10 Uno yng Nghartref Tregerddan am 3.30
17 Oedfa am 10.00 Tref lleol
24 Oedfa am 2.00 Gweinidog
29 Oedfa undebol Gwener y Groglith ym Methel, Tal-y-bont am 10.00
31 Oedfa undebol Sul y Pasg ym Methel am 10.00 a 2.00



## Pen blwydd hapus

Cyfarchion arbennig i Gwynant Evans, Maes-y-Garn, (Elgar gynt) ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn yn ddiweddar. Heb ddatgelu union faint y penblwydd arbennig hwn y mae lle i gredu y bydd yn bedwar ugain ymhen deng mlynedd. Daw'r cyfarchion oddi wrth ei holl ffans gan gynnwys un teulu arbennig o Wlad yr Iâ!

## Merched y Wawr

Dydd Llun, Ionawr 14eg croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan ein cyn-lywydd, Mrs Mair Lewis, yn absenoldeb Mrs Brenda Jones. Ar ôl dymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb aed ymlaen i drafod materion y gangen. Yna croesawyd ein gŵr gwadd am y noson sef Mr John Hughes, Dolau! 'Teithio' oedd teitl y noson a chawsom ein tywys trwy hen siroedd Gogledd Cymru. Soniodd am y golygfeydd hyfryd, y gweithfeydd, y chwareli a'r cestyll. Hefyd am adeiladau diddorol ac ambell stori am yr hen gymeriadau ac arferion fyw mewn gwahanol ardaloedd, megis Llangollen a Gregynog. Noson hanesyddol, ddaearyddol a diddorol dros ben, a hyn i gyd yn cael ei hadrodd yn ei ffordd unigryw ei hun, yn llawn hiwmor.

Cawsom y paned arferol i gloi dan ofal Lisa a Gaenor. Lisa hefyd oedd enillydd y raffl.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Elfed Pugh a'r teulu, 45 Tregerddan, ar farwolaeth Gwen Pugh fore Gwener 15 Chwefror. Bydd yr angladd fore Gwener 22 Chwefror am 11.00 yn Eglwys Llangorwen.

## Cartref Tregerddan

Dymuniadau gorau i Mrs Rosie Evans, sydd wedi dathlu ei phen blwydd yn 100 oed.

## Diolch

Dymuna Iwan a Jean ddiolch o galon i bawb am eu dymuniadau da mewn cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau. Mae'r cyfan wedi cyfrannu at wellhad Iwan. Diolch i'r doctoriaid a'r nyrsys yn y gymuned am eu gofal. Ni'n lwcus i fod yn byw mewn shwt ardal hyfryd ac Ysbyty Bron-glais yn dal i fynd.

## Chwaraewraig ifanc

Llongyfarchiadau i Hannah Megan Miles, Crefftau Pennau, ar gael ei dewis i sgwad o dan 16 merched Cymru. Gwahoddwyd Hannah, sy'n 14 oed, i fynychu gwersyll hyfforddi pedwar diwrnod yng Nghaerdydd

## Emlyn Rees

Gyda marw Emlyn, collwyd un o'r hen do a daenodd ei ofal a'i gonsyrn gydag egni diflino dros bentref Bow Street. Fe'i ganwyd ac fe'i magwyd yma, gan dreulio ei oes hirfaith ymhlith y bobl a garai. Lle bynnag y bu angen, byddai Emlyn â'i lygaid craff yn cynnig awgrym, a chyn pen dim wedi llwyddo i gael gafael yn yr hyn oedd yn bwrpasol, yn aml iawn heb unrhyw gost. Synhwyrem iddo fynd yn ddwfn i'w boced droeon, ond heb edliw dim. Tyfodd y pentref a bu newid aruthrol yn y gymdeithas, a gwyddom mai loes i'w galon oedd colli y gwmnïaeth gynnes, glos a fodolai ym mlynyddoedd ei ieuenctid. Eithr daliodd ati gan roi ysgwydd gref i gynnal beichiau pob gweithgaredd allanol megis datblygu'r maes chwarae ac yn enwedig Tîm Pêl-droed Bow Street. Pan ymgymerai â rhyw waith neu'i gilydd dros rywun arall, cymaint oedd ei frwdfrydedd fel na wyddai yn aml pryd i stopio! Un felly ydoedd, cymwynasgar hyd y diwedd. Ni ollyngodd ei ddiddordeb na'i egni dros y bechgyn lleol, a'r maes chwarae drwy gydol ei fywyd. Gwyddom fod cenedlaethau o blant ar y maes chwarae wedi dod i'w adnabod a'i barchu ac yn meddwl yn fawr ohono. Roedd ganddo yntau ffordd arbennig o'u trafod. Fel aelod oes o Gapel y Garn, cymerai diddordeb yng nghynnal a chadw'r fynwent a gweithredwyd droeon ar ei awgrymiadau caredig. Bellach rhaid dweud gyda'r bardd

"Mae'n chwith, pwy lenwith ei le?"

**Vernon Jones**

gyda'r cyfle i fod yn rhan o gêmau rhyngwladol yn hwyrach yn y flwyddyn.

Mae Hannah wedi chwarae i dîm ieuenctid Bow Street ers pan oedd yn 6 oed ac mae ar hyn o bryd yn chwarae i'r tîm dan 16 sy'n cael eu hyfforddi gan Barry Williams a Rhys Lewis. Mae hyn yn dystiolaeth o'r gwaith arbennig sy'n digwydd gan y strwythur ieuenctid yng Nghlwb Pêl-Droed Bow Street.

### Cydymdeimlad

Ar ôl bod yn Ysbyty Bron-glais am gyfnod mae John H. Jones, Gwynfa, wedi cyrraedd Cartref Tregerddan erbyn hyn. Gobeithio ei fod yn teimlo'n well ac y bydd yn ddedwydd yng nghwmni staff a chyfeillion y Cartref. Rydym yn cydymdeimlo â John wedi iddo golli'i frawd hynaf Evan Owen, ag yntau yn Ysbyty Gwynedd yn disgwyl triniaeth. Wedi gyrfa golegol lwyddiannus rhoddodd o'i orau fel athro ym Môn – cartre'i hynafiaid – am gyfnod hir. Ein cofion at John ac at y teulu ym Môn.

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Wendy Richards, ei phartner Rob, ei phlant Siân, Catrin ac Owen, ei brodyr a'i chwiorydd a'i nithoedd a neiaint.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â theulu Hafle wrth iddynt wynebu'r brofedigaeth o golli tad yng nghyfraith Rhian Heledd yng Nghaerdydd. Yr ydym yn anfon cofion arbennig at Rhian, Adrian a'r plant.

Cydymdeimlwn â Elfed Pugh a'r teulu, 45 Tregerddan, ar farwolaeth Gwen Pugh fore Gwener 15 Chwefror. Bydd yr angladd fore Gwener 22 Chwefror am 11.00 yn Eglwys Llangorwen.



**Bore da Mr Jones!** Ymwelydd gafodd Vernon Jones, Gaerwen yn ddiweddar.

## Y BORTH



### Eglwys St Matthew

Cynhaliwyd gwasanaeth Cristingl Gŵyl Fair dydd Sul Ionawr 27ain yn Eglwys St Matthew, y Borth, yn cael ei arwain gan y Parchg Cecilia Charles. Cynorthwywyd y ficer gan blant arbennig yr ysgol Sul fu'n gweddio, darllen y darn o'r Beibl a chanu. Diolch i bawb ddaeth i'r gwasanaeth a'n cefnogi. Diolch hefyd i'r canlynol: y plant am eu cyfraniadau, y ficer am gymryd y gwasanaeth, Michael James yr organydd a phawb gynorthwyodd i wneud y Cristinglau.

### Pen blwydd arbennig

Dymunwn ben blwydd hapus i Owen Edwards, Fferm Penygraig, fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 90 ar Chwefror 21ain.


**YN EISIAU GOFALWR / GOFALWYR**

I FYW YN

NHŶ CAPEL Y GARN, BOW STREET

**Telerau i'w trafod**

Am ragor o fanylion, cysylltwch ag:
Alan Wynne Jones, Trem-y-ddôl, Bow St, Ceredigion SY24 5BJ
01970 828163
alan.jones212@btinternet.com
**Dyddiad cau**: 9 Mawrth 2013.




Mae wyth wythnos Siwan Gwynddaf ym Mbale, Uganda yn prysur ddod i ben. Gellwch ddarllen ei hanes ar ei blog http://siwangwyndaf.wordpress.com/ Yn y llun gwelir Siwan ger Rhaeadr Sipi.

### Gŵyl Bêl-droed

**Dydd Sadwrn 6ed a dydd Sul 7fed o Ebrill yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch cynhelir Gwyl Bêl-droed i goffau Eric ac Arthur Thomas o dan adain Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru. Oedrannau, o dan 7, o dan 9, o dan 11, o dan 12, o dan 14 ac o dan 16. Am ragor o fanylion cysylltwch â Kevin Jenkins 01970 820 115 neu 07896 704 909**

# Dŵr ym Mhenrhyn-coch

Mae'n debyg y byddwn yn cofio 2012 fel blwyddyn y dŵr. Yn y gwanwyn gofidio am brinder dŵr tan ddaeth y glaw yn Ebrill, y llifogydd ym Mehefin a mwy o law y gweddill o'r flwyddyn a llif eto yn Rhagfyr. I'n poeni wedyn, cau'r ffordd drwy'r pentre i gario mwy o ddŵr eto.

Beth yw hanes dŵr yn y pentref tybed? Y mae'r pentref wedi ei sefydlu ar benrhyn sych (cochi mewn haf sych?) rhwng dwy nant. Olion Oes yr Ia ydyw, isbridd o raean bras a scim o bridd claiog ar yr wyneb. Yn nechrau'r ddeunawfed ganrif tai pridd oedd yno gyda gardd yn cynnwys tŷ bach a thwlc mochyn ond dim dŵr. Cyfnod y bwced a phiser oedd hi a chario dŵr o'r ffynhonnau a'r tarddiadau ger y nentydd i gael dŵr yfed ac o'r nentydd eu hunan i gael dŵr golchi - ond dim ar y Sul. Yr oedd yno lawer o ffynhonnau a thoriadau bychan ger y Silo ond achos prinder dŵr yn gyffredin fe agorwyd ffos o nant Stewi ger Y Ddôl Fach hyd y pentref a gwneud cafan ger y sgwâr i dorri syched ceffylau o'r ardal a'r gweithfeydd mwyn oedd wedi dod i'w pedoli. Fe ai'r gorlif i mewn i nant Silo. Hefyd roedd rhaid cael dŵr i anifeiliaid y porthmyn oedd yn casglu yn y pentref. Mae'n bosib y bydde dŵr y nant agosaf, sef y Silo, yn cael ei llygru'n ddrwg gyda'r gweithiau mwyn lan y cwm ac felly ddim yn dderbyniol i'r pentrefwyr. Nid yw'r ffos yn amlwg ar fap 1904 ac mae'n bosibl bod dim galwad amdani ar ôl i'r gweithfeydd plwm redeg lawr tua 1880 a thrên i gludo anifeiliaid ar gael ers 1864. Hefyd y ffordd o'r gweithfeydd i Aberystwyth oedd ar draws Llechwedd Hen ac allan i Gefnllwyd. Ond nid oedd hyn yn ddiwedd y byd achos roedd dwy dafarn ar y sgwâr,



Y tap ger Panteg




Seston (cistern) yr ochr isaf i Cwrt ger Ty'ncwm ger y nant fach.

y *Farmers Arms* (y Llythyrdy heddiw) a'r *Three Horse Shoes* ar draws y ffordd. Fe'u caewyd tua 1930 achos roedd gormod o feddwdod yn y pentref!

Y bennod nesa yn 1930 oedd i'r pwyllgor plwy gyfrannu pibellau dŵr a thapie i gael dŵr yn agosach i'r pentrefwyr cyn belled ac byddai'r pentrefwyr eu hun yn barod i wneud y gwaith llafur. Cardis ar y pwyllgor? Roedd un system yn dod o darddiad o dan Cwmbwa a thap ger y bont ac eto ar ben y lôn. Roedd y system arall yn dod a dŵr o darddiad ger y nant fach ychydig yn is na Thyncwm a thapie tu ôl i'r ysgol, ar y sgwâr ac wedyn lawr y ffordd i Dawelfan a Phanteg. Ym Mythynnod Gloster rhoddwyd tap ger arhosfa'r bws heddiw a phibell ar draws y cae i darddiad yn yr allt. Yr oedd hwn yn tueddu i sychu yn yr haf ac wedyn roedd rhaid cario dŵr fel o'r blaen o Froncastellan. Y modd a ddefnyddiwyd oedd gosod pibell o'r tarddiad i mewn i seston gerrig a oedd yn storfa ac yna yn eu blaen. Yr wyf fi yn cofio pan oedd dŵr y sgwâr yn arafu yn y gwanwyn. Roedd rhaid mynd lan i lanhau'r ffilter a'r seston oedd wedi ei blocio gan fwyd brogaod. Felly y bu tan 1939 pan godwyd tŷ ffilter ym Mont-goch i drin dŵr o Graig-y-pistyll a phibell go lew i'r pentref. Gosodwyd tapiau newydd yn y pentref yn agos at yr hen dapiau ac ychwaneg yn y Garth, ond roedd y bwcedi yn dal i gerdded.

Daeth y dröedigaeth ym 1948 pan godwyd y tai cyngor - ie, dŵr ymhob tŷ a'r carthion yn diflannu lawr y bibell! Y tai eraill wedyn yn dilyn y ffasiwn, dŵr i'r tŷ a tanc septic yn yr ardd. Fel y sylweddolodd hen lanc cyn y rhyfel ar ôl bod yn Llundain am y tro cyntaf "pobl od wyddest ti, neud eu busnes yn y tŷ a bwyta tu fas". Daeth y carthffos i'r pentre yn y saith degau a siawns i bawb ddilyn y ffasiwn. Y tŷ bach mwy nid oedd. Pan ychwanegwyd yr argae yng Nghraig-y-pistyll a thŷ ffilter newydd daeth pibell newydd drwy'r pentre ym 1954 ar ei ffordd i bentrefi eraill a hefyd cyflenwad i'r pentre ei hunan. Braich o'r bibell yma sydd yn awr yn tyllu ei ffordd lan y pentre gan achosi i lawer fodurwr golli ei dymer.

**Ceri Evans**




| Geiriau | Seston – Cistern | Carthffos – Sewer | Brogaod – Frogs |
|---|---|---|---|

# MADOG / DEWI / CEFN-LLWYD

**Oedfaon Madog - 2.00**
**Chwefror**
24 10.00 Oedfa'r Ofalaeth yn y Garn - Gŵyl Ddewi
**Mawrth**
3 John Roberts
10 W.J. Edwards
17 Bufail
24 John Tudno Williams
31 (Sul y Pasg) Oedfa'r ofalaeth yn y Garn Bugail

### Pen blwydd arbennig

Pen blwydd hapus a dymuniadau gorau i Eirian Hughes, Lluest Fach, sydd yn dathlu ei phen blwydd yn 70 oed ar 24 Chwefror.

### Gwellhad buan

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Wendy Evans, Y Fronfraith, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Erwyd Howells, Tŷ Capel Madog, ar farwolaeth mam Erwyd – Mrs Elsa Howells o Bonterwyd;

ac â Nest ac Eirwyn Jones, Felin Hên, ar farwolaeth chwaer Nest – Rhian Eleri Jenkins o Daliesin.

# Ffordd ar gau

Mae'n debyg y bydd y ffordd am Bont-goch ar gau am 6 wythnos o 11 Chwefror oherwydd gwaith ffordd ger Ty'n cwm.






# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau, 31 Ionawr yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Cyng Heulwen Morgan. Cydymdeimlwyd â'r Cyng Rob Pugh ar farwolaeth ei dad, ers y cyfarfod diwethaf. Hon oedd y noson pryd y penderfynir ar y Praesept am y flwyddyn 2013-2014. Penderfynwyd gofyn am ychwanegiad o £500 at y £15,000, sef y sefyllfa am 2012-2013. Felly, eleni Praesept o £15,500 = £18.71 fydd am annedd Band D.

Yn ôl yr arfer, dosbarthwyd rhoddion i elusennau ac achosion lleol, hynny fel a ganlyn: Ffrindiau Cartref Tregerddan £150, Y *Tincer* £300, Maes Chwarae Rhydypennau £500, Pwyllgor Henoed £250, Mynwent y Garn £200, Mynwent Noddfa £150, Clwb Hoci Bow Street £100, Cylch Meithrin Rhydypennau £150, Ysgol Rhydypennau £100, Ambiwlans Awyr Cymru £100, Neuadd Rhydypennau £1000, CAB £100, Clwb Ffermwyr Ieuanc Tal-y-bont £100, Papur Sain Ceredigion £100, Sioe Arddwriaethol Rhydypennau £100. Mynegodd rhai cynghorwyr eu diddordebau wrth drafod achosion yr oeddynt a chysylltiad â hwy. Dymunir hysbysu hefyd os oes unigolion lleol sydd wedi eu dewis i gynrychioli eu bro neu eu gwlad mewn unrhyw fodd, bod hawl ganddynt i wneud cais am gymorth ariannol gan y Cyngor Cymuned.

Nid oedd dim i'w ychwanegu at y datblygiadau yn Maesafallen, tebyg y gorffennir y gwaith gyda chaniad y gog, eleni gobeithio! Mae maes chwarae Tregerddan mewn cyflwr anarferol o wlyb, gyda dŵr yn rhedeg allan i'r ffordd. Gobeithir cael cymorth gan y Brifysgol (y perchnogion) i gwteri'r rhannau gwlyb. Penderfynwyd ysgrifennu eto at y Gwasanaethau Brys yn gofyn iddynt ein cefnogi parthed y fynedfa drychinebus i Gartref Tregerddan. Dywedwyd bod siglen newydd wedi ei gosod yn ardal yr offer chwarae yng nghae chwarae Tregerddan, ond ei bod wedi ei fandaleiddio y diwrnod canlynol. Tristwch y sefyllfa yw bod offer yn cael ei fandaleiddio cyn i'r Cyngor gorffen talu amdanynt. Mae gennym £3,000 eto i'w dalu dros y blynyddoedd nesaf. Edrychir ar y posibiliadau o gael llithren ar gyfer plant iau ym maes chwarae Bryncastell. Adroddwyd bod 4 mainc newydd wedi cyrraedd ac yn disgwyl cael eu gosod yn fuan.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Sir, y Cyng Paul Hinge am ddeiseb gan drigolion sy'n byw ar y Ffordd Ddeheuol (South Beach), Clarach. Mae'r ffordd yn gul, a mwy o drafnidiaeth arni o gyfeiriad yr ardal wyliau, ond yn fwy na dim y goryrru peryglus sydd arni. Yr oedd cyfarfod wedi ei drefnu. Dywedodd mai 3% fydd codiad y dreth Cyngor Sir eleni, a rhywbeth tebyg ar ben hynny gan yr Heddlu. Cafwyd trafodaeth ymhellach rhyngddo ef a'r cynghorwyr am ddyfodol yr ysgolion lleol, Rhydypennau yn arbennig. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi pwys ar nifer o ddisgyblion i'r droedfedd sgwâr mewn ysgolion (yn cynnwys cabanau). Gall hynny olygu ar brydiau bod mwy o le (brics a mortar) i gyfiawnhau nifer y disgyblion mewn ysgol fel Rhydypennau. Y mae posibilrwydd yw y bydd Craig yr Wylfa, Borth yn cau, a'r disgyblion yn dod i Rydypennau. (Mae nifer dda yno yn barod). Ond gwelwyd ar agenda y Cyngor fod 20 o dai i'w codi yn gyfochrog â Chae'r Odyn (rhywbryd). Mae'n siŵr y bydd nifer dda o blant yno hefyd. Tebyg y gwelir tipyn o newid yn nhrefn addysg yng ngogledd Ceredigion yn y dyfodol.

Cynllunio. Mae ceisiadau am ddatblygu tir ger Clos Corwen, Clarach, a chodi dau dŷ ar dir yn Nhregerddan wedi eu gwrthod gan yr Adran Gynllunio. Mae'r cais am Dirlunio ag ati parthed 20 o dai ger Cae'r Odyn, Bow Street wedi ei gymeradwyo.

Cymeradwywyd cynllun gan Gyngor Sir Ceredigion i osod biniau ailgylchu gwydr ger Tregerddan, Maes Ceiro, a Neuadd Rhydypennau a hynny yn fuan. Bydd yr Asiantaeth ROSPA yn archwilio cyfarpar chwarae yn fuan am gost o £400!

Adroddwyd bod cwyn wedi dod i law am gerbydau yn troi yn ôl ym mhen uchaf ystâd Maesymeillion, Penygarn a hynny ar ganol nos. Dywedwyd mai yr arwyddion aneglur oedd ar fai. Ond mater i ddatblygwyr yr ystâd yw'r arwyddion.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 28 Chwefror.

# Ysgol Penweddig

### Gwasanaeth Nadolig

Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig blynyddol yr ysgol ar ddiwrnod olaf y tymor, yng Nghapel Bethel. Braf oedd gweld y capel yn orlawn a chafwyd darlleniadau, carolau ac eitemau unigol a chan gorau'r ysgol. Cafwyd anerchiad gan Y Parchedig Eifion Roberts a'r Fendith gan Y Parchedig Richard Lewis. Gallwch weld holl luniau'r gwasanaeth ar ein gwefan.

### Gala Nofio'r Urdd

Llongyfarchiadau i'r disgyblion a gymerodd ran yng Ngala Nofio Uwchradd Rhanbarth Ceredigion yr Urdd ac yn arbennig i'r canlynol: Ifan Thomas (2il yn y 100m Nofio Rhydd i Fechgyn Bl. 11+), Rhydian Jones, Fergus Pitcher, Steffan Herdman ac Ifan Rees (2il yn y 4 x 50m Ras Gyfnewid Gymysg i Fechgyn Bl. 9 & 10 ac 2il yn y 4 x 50m Ras Gyfnewid Nofio Rhydd i Fechgyn Bl. 9 & 10), Catrin Skym, Mali Jones, Manon Jones ac Alaw O'Rourke (3ydd yn y 4 x 50m Ras Gyfnewid Gymysg i Ferched Bl. 7 & 8 ac 2il yn y 4 x 50m Ras Gyfnewid Nofio Rhydd i Ferched Bl. 7 & 8), Cari O'Rourke (1af yn y 100m Nofio ar y Cefn i Ferched Bl. 9 & 10 a 1af yn y 100m Nofio Rhydd i Ferched Bl. 9 & 10), Steffan Herdman (2il yn y 100m Strôc Adeiniog i Fechgyn Bl. 9 & 10 ac 2il yn y 100m Nofio ar y Frest i Fechgyn Bl. 9 & 10), Tomos Watson (1af yn y 100m Strôc Adeiniog i Fechgyn Bl. 11+ a 1af yn y 4 x 50m i Fechgyn Bl. 11+), Bethan Benham (1af yn y 100m Strôc Adeiniog i Ferched Bl. 9 & 10 ac 2il yn y 100m Nofio Rhydd i Ferched Bl. 9 & 10), James Michael (2il yn y 4 x 50m Bechgyn Bl. 7 & 8 a 3ydd yn y 100m Nofio ar y Frest i Fechgyn Bl. 7 & 8), Talesia Janes (2il yn y 4 x 50m i Ferched Bl. 11+), Manon Jones (3ydd yn y 100m Nofio ar y Cefn i Ferched Bl. 7 & 8), Alaw O'Rourke (2il yn y 100m Nofio Rhydd i Ferched Bl. 7 & 8 a 3ydd yn y 100m Nofio ar y Frest i Ferched Bl. 7 & 8), Elin Wallace (3ydd yn y 100m Nofio ar y Frest i Ferched Bl. 11+ a 3ydd yn y 100m Nofio Rhydd i Ferched Bl. 11+)



### Gymnasteg

Llongyfarchiadau i Andreas Adams Bl. 13, ar ddod yn 5ed yn y Deyrnas Unedig yng ngrŵp 17-18 oed ym Mhencampwriaeth Prydeinig Agored 'Tumbling' ar ddiwedd mis Tachwedd. Teithiodd i Stoke-on-Trent i gystadlu a dywedodd ei fod "yn gyfle i gwrdd â phobl gorau'r maes o bob cwr o'r byd."

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 15 Ionawr 2013, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Edwina Davies, yn y gadair. Roedd Trefor Davies, Mel Evans, Siân James, Tegwyn Lewis, Dai Rees Morgan, Richard Owen, Gwenan Price, Jeff Pyne ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sir, Dai Mason. Roedd ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan y cynghorwyr eraill. Hefyd yn bresennol am y rhan fwyaf o'r cyfarfod oedd Mr a Mrs Belsey, Tŷ Newydd, Cwmerfyn.

Estynnwyd cydymdeimlad y Cyngor i Tegwyn Lewis ar ei brofedigaeth ddiweddar.

Materion yn codi o'r cofnodion: Roedd y Cadeirydd wedi cael gwybod gan Mr Walker y byddai angen selio'r map o'r newydd cyn ei ailosod yn y gwanwyn. Cadarnhaodd Mel Evans fod y blwch post yn Salem wedi cael ei osod yn ôl yn ei le. Roedd Mr a Mrs Belsey, Tŷ Newydd, Cwmerfyn wedi anfon ateb am y tir a ffensiwyd ger Tŷ Newydd, ac roeddynt wedi dod i'r cyfarfod i roi eu safbwynt. Fe ddywedon nhw eu bod hwy a'r rhai fu yn Tŷ Newydd o'u blaenau wedi arfer perchnogi ac edrych ar ôl y tir dan sylw, ac roedd ffens wedi cael ei chodi yn rhannol er diogelwch. Nid oedd y Cynghorydd Sir yn cytuno â hwy ar fater y perchnogaeth a dywedodd ei fod wedi gwneud ymholiadau gydag Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir a'i fod yn disgwyl cael ychwaneg o wybodaeth. Penderfynodd y Cyngor y byddai raid cael gwybodaeth mor bendant â phosib am berchnogaeth y tir cyn y gallai wneud unrhyw sylwadau pellach ar y mater.

Ceisiadau am gymorth ariannol: penderfynwyd ystyried y ceisiadau yng nghyfarfod mis Chwefror.

Ceisiadau cynllunio wedi eu caniatau: chwe thŷ ar dir Pen-banc, Penrhyn-coch; tŷ ger Cwm Pennant, Penrhyn-coch. Ceisiadau newydd: tŷ ar dir ger Plas Newydd, Penrhyn-coch – dim gwrthwynebiad; cais am linell drydanol ger Y Gelli, Penrhyn-coch – dim gwrthwynebiad. Cais a dynnwyd yn ôl: tŷ ger Rhandir, Penrhyn-coch.

Mynychu cyfarfodydd: roedd Gwenan Price wedi mynychu cyfarfod blynyddol Cyfeillion Tregerddan.


Materion eraill: nodwyd fod y cloddiau o boptu'r cae pêl-droed wedi cael eu torri, ond roedd llanast wedi ei adael yn sgîl hynny, yn enwedig ar y palmant rhwng Glanceulan a giât gefn yr ysgol – y Clerc i adael i'r Cyngor Sir wybod. Roedd cwynion hefyd am faw cŵn ar y llwybr o Glanceulan i'r cae chwarae – y Clerc i holi am y posibilrwydd o gael arwyddion. Roedd pryder am gyflwr y ffordd ym Mhen-bont. Addawodd y Cynghorydd Sir gysylltu â swyddogion y Cyngor Sir i weld beth oedd eu hamserlen ar gyfer clirio'r llanast a oedd yn dal yno ar ôl y llifogydd.

# Taith gerdded y mis

## Castell Gwallter a Llwybr y Beirdd

**Man dechrau**: Neuadd Rhydypennau.
**Map**: OS Explorer 213.
**Pellter**: 3.5 milltir. Cymedrol.

O'r neuadd ewch i gyfeiriad Maesceiro a chadw ar ochr dde'r stad. Dilynwch y llwybr dros y bontbren a'r rheilffordd ac i fyny tuag at Ruel Uchaf, ac wedyn Ruel Isaf. Ar ôl mynd heibio'r adeiladau trowch drwy'r iet a dilyn y llwybr ar draws y cae.Trwy'r ddwy iet nesaf ac ewch dros y sticil ac heibio Brynhir sydd ar eich chwith. Ar waelod y cae mae sticil yn eich arwain drwy'r coed ac ewch dros un arall i'r dde , ymlaen a chadw i'r chwith heibio'r baddon. Trwy'r iet ac i fyny heibio Castell Gwallter (Caer Brynhir) ar y dde. Ymlaen i'r ffordd ac i'r dde ac ar ôl tua dau gan llath fe welwch lwybr y beirdd yn eich arwain lawr tuag at Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn. O'r eglwys cerddwch ar hyd y ffordd nes cyrraedd Ruel Uchaf ac yn ôl yr un ffordd i'r neuadd.
Rhys Thomas




## CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau'r henoed am gymhorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 31 Mawrth 2013.

Yr ysgrifennydd yw:
**Mary Jones**
Lleifior
27 Glan Rheidol
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth SY23 3GG
01970 624408

# Colofn Mrs Jones

Dros y Nadolig, dywedodd merch fy nghefnder wrthyf iddi gael budd o gadw dyddiadur gweithredoedd am fis. Nid dyddiadur bob dydd cyffredin yw hwn, nid dyddiadur i'r pethau cyffredin o dywydd a gwaith a digwyyddiadau bywyd ond rhestr o'r hyn a wnaeth. Yr oedd y canlyniad, meddai hi, wedi ei hysbrydoli i newid rhai pethau ac i dderbyn eraill.Y mae hi yn ferch synhwyrol - oes, y mae yna rai yn y teulu! - ac yn ferch sydd wedi gorfod dioddef mwy na'i siar o broblemau ers ei phlentyndod. Y mae hi hefyd yn ferch weithgar a buddiol yn ei chymdeithas. Fe wn yr hen air am bobl yn canmol eu teulu ond, yn yr achos hwn, nid y fi ydi'r unig un sydd wedi gweld ei gwerth hi, nid ar chwarae bach y cewch chi MBE yn eich tridegau wedi'r cyfan. Felly,dyma benderfynu cadw rhestr o'r fath fy hun a'i rhannu, petai dim ond er mwyn profi mod innau, hefyd, yn gwneud rhywbeth amgenach na gwylio teledu a gweithio.

Yn ystod y mis diwethaf mi ydw i wedi:

Ysgrifennu a thraddodi 5 pregeth
Glanhau'r tŷ
Croesawu ymwelwyr a mynd allan am bryd o fwyd gyda hwy
Dechrau ysgrifennu erthygl ar hiwmor a'r Gymraeg
Ail afael mewn gweu
Cychwyn trefnu penwythnos o ddathliadau Pasg i'r eglwys ( ac os oes rhywun am fy nghynorthwyo....plis!!!!)
Ail afael mewn ymarfer
Ymuno â Slimming World

Ar ôl ei gweld a'i darllen, buan y sylweddolais na newidiwn ddim ar bethau, mewn difrif, dim ond penderfynu gwneud mwy o rai pethau - glanhau, ymarfer, Slimming World, ysgrifennu, cymdeithasu - a dal ati gyda phethau eraill megis fy ngwaith yn yr eglwys. Er mae'n amlwg y dylwn ymestyn hwnnw i gynnwys rhyw gymaint o ymweld gan nad oes gennym ficer er mor anodd hynny i rywun sydd yn gweithio bum, a weithiau chwe diwrnod yr wythnos.

A daw hyn a fi yn dwt at beth arall a sylweddolais. Yr wyf yn hoff iawn o gyfiawnhau fy niffygion trwy ddweud nad oes gennyf amser ond mae gennyf amser, mewn difrif, yr amser a dreuliaf yn gwylio'r teledu ac yn gwagsymera ar fy nghyfrifiadur ar dudalennau Facebook a chwarae gêmau....

Pan ddywedais i hyn mewn ebost i'm cyfyrderes, cefais ateb yn ôl gyda'r troad yn dweud mai dyna union bwrpas yr ymarfer, rhoi cyfle i rywun olygu ei fywyd, newid pethau na hoffai a chanolbwyntio ar bethau a'i difyrrai a gwneud iddo sylweddoli nad diffyg amser yw'r broblem ond diffyg trefn ar amser.

Yr hen a ŵyr a'r ifanc a dybia, meddai'r ddihareb, ond ar dro mae'n amlwg mai'r ifanc a ŵyr a'r hen a wastraffa amser!

# Dewis Hoff Awdur Cymru

*Yn y cyfnod yn arwain at Ddiwrnod y Llyfr, mae Radio Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru a Llenyddiaeth Cymru yn trefnu cystadleuaeth i ddod o hyd i hoff awdur Cymraeg Cymru.*

Ar raglen radio Nia Roberts brynhawn Iau 7 Chwefror, cyhoeddwyd enwau'r deg awdur sydd ar y rhestr fer, sef Caradog Prichard, Islwyn Ffowc Elis, Angharad Price, Manon Steffan Ros, Dewi Prysor, Jon Gower, Kate Roberts, Caryl Lewis, Bethan Gwanas a William Owen Roberts.

Yn ôl Lowri Davies, Golygydd Rhaglenni Cyffredinol BBC Radio Cymru, "Mae Hoff Awdur Cymru yn brosiect cyffrous iawn, ac yn gyfle i ni drafod gwaith rhai o brif awduron Cymraeg Cymru. Ond y bobl biau'r dewis, ac fe fyddwn ni'n gofyn i wrandawyr Radio Cymru bleidleisio dros eu ffefryn o'r deg awdur sydd ar y rhestr fer – gan gyhoeddi ar Ddiwrnod y Llyfr, 7 Mawrth, pa enw sydd wedi dod i'r brig. Mae Radio Cymru'n dathlu Diwrnod y Llyfr yn flynyddol, ond eleni rydyn ni'n falch o gael cydweithio gyda Chyngor Llyfrau Cymru a Llenyddiaeth Cymru i ddarganfod beth yw barn darllenwyr drwy Gymru benbaladr."

Yr wythnos yn dechrau 18 Chwefror bu gwesteion yn trafod dau awdur y dydd; 25 Chwefror ymlaen, bydd modd i'r cyhoedd bleidleisio dros eu hoff awdur ar wefan Radio Cymru, a chyhoeddir enw'r enillydd ar Ddiwrnod y Llyfr, dydd Iau 7 Mawrth. I bleidleisio ewch at bbc.co.uk/radiocymru.

**Cynhelir Diwrnod y Llyfr 2013 ddydd Iau 7 Mawrth, gyda nifer fawr o ddigwyddiadau a gweithgareddau'n digwydd drwy Gymru benbaladr. I wybod rhagor, ewch i http://bit.ly/worldbookday neu dilynwch ni ar y Gweplyfr, Diwrnod Y Llyfr / World Book Day ac ar Trydar @DYLLCymruWBDWales.**

**Caryl Lewis** Ganed hi yn Dihewyd, ger Aberaeron, Ceredigion, a bellach mae'n byw ar fferm yng Ngoginan. Bu'n astudio ym mhrifysgolion Durham ac Aberystwyth. Mae hi'n awdur llawrydd yn ysgrifennu ar gyfer plant ac oedolion, yn ogystal ag ar gyfer y theatr, y teledu a'r diwydiant ffilm. Enillodd ei nofel fer, *Iawn Boi?* Wobr Tir na n-Og yn 2004, a'i nofel *Martha, Jac a Sianco* oedd Llyfr Cymraeg y Flwyddyn 2005. Ar ôl hynny, cyfieithwyd y nofel i'r Saesneg a seiliwyd ffilm boblogaidd arni.



Mae arddull realistig y nofel yn cyfleu'r newidiadau mawr sy'n digwydd yng nghefn gwlad, a'r cyfan yn cael ei bortreadu trwy gyfrwng y berthynas rhwng dau frawd a chwaer ganol oed sy'n rhedeg fferm deuluol. Mae Caryl bellach wedi cyhoeddi dros ugain o deitlau, yn cynnwys ei nofel ddiweddaraf, *Naw Mis* (2009).

*"Y gwyliau rydych wedi'u gohirio ers blynyddoedd"*
*Peidiwch ag oedi rhagor!*

**Patagonia :::: Gwlad y Cewri**

Pobl - Tir - Iaith - Hanes - Traddodiad - Dathlu - Difyrrwch


Y trefnwyr mwyaf profiadol - yr unig rai sydd â'u gwreiddiau yn ddwfn yn y Wladfa.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Elvey MacDonald, Haulfan, Maes Carrog, Llanrhystud, Ceredigion. SY23 5AL
**01974 202052 | e-bost: elveymac1@btinternet.com**

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

ytincer
@googlemail.com


eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mân
01970 820149
07980 687475

TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

Siop
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

# Adolygiadau

Dei Tomos, Jeremy Moore *Cymru ar hyd ei Glannau* Gomer 160t. £19.99

Dyma lyfr diddorol a deniadol sy'n mynd â ni am dro ar hyd arfordir Cymru o Bont Hafren i bont sir y Fflint. Mae'r daith o 870 milltir wedi ei rhannu'n ddeg adran, gyda phennod i bob un. Cyfuniad sydd yma o sylwebaeth Dei Tomos a lluniau Jeremy Moore, y ffotograffydd o Benrhyn-coch. Ar ddiwedd y llyfr ceir map yn amlinellu'r daith o bennod i bennod.

Mae'r awdur yn amlwg wedi mwynhau crwydro'r glannau ac mae'n llwyddo i'n diddori ninnau wrth sylwi ar yr hyn a wêl, sgwrsio â'r trigolion a hel atgofion am enwogion a hynodrwydd y gwahanol ardaloedd. Mae'r tudalennau'n frith o sylwadau am gartrefi enwogion, cestyll, goleudai, ogofâu, diwydiant a diwylliant. Mae Dei Tomos yn hen gyfarwydd â'r 'pethe', ac mae'r gyfrol yn frith o ddyfyniadau o gerddi hen a diweddar.

Wrth ddilyn arfordir Mynwy a Morgannwg cawn gyfarfod â David Davies a gododd y dociau yn y Barri, yn ogystal â chlywed am Edgar Evans o Rosili, ac am ei daith drychinebus i Begwn y De efo Scott. Ar draethau sir Gaerfyrddin y glaniodd Amelia Earhart ar ôl hedfan dros Fôr Iwerydd yn 1928, ac ar dywod eang Pentywyn y bu'r ymryson am gyflymder uchaf ar y tir rhwng Malcolm Campbell a'r Cymro, Parry-Thomas, yn ei fodur Babs. Awn heibio i gynefin Dylan Thomas ac ymlaen i sir Benfro, ac yn Ninbych-y-pysgod cofiwn am Robert Recorde, mathemategydd, ac un o blant y dref a ddyfeisiodd yr arwydd hafal (=). Ac felly ymlaen – o sir i sir, o glogwyn i glogwyn ac o draeth i draeth. Galw heibio i rai o'r ynysoedd i fwynhau'r adar a'r blodau, rhyfeddu at y diwydiant yn Aberdaugleddau, cofio am gampau llenyddol teulu'r Cilie, a sefyllian peth uwchben Pwllderi. Canmol trefi Aberystwyth a Llandudno, ac wfftio Fairbourne yn ddidrugaredd – heb sôn am erchylltra'r carafannau i'r dwyrain o Fae Colwyn!

Ymhlyg yn hyn i gyd y mae lluniau crefftus Jeremy Moore – tirluniau godidog o arfordir Ceredigion ac Ynys Môn, portreadau manwl o'r frân goesgoch a'r titw barfog, pobl wrth eu gwaith ac yn hamddena, a'm ffefryn i – llun godidog o'r bonion coed ar y traeth yn Ynys-las.

Mae gennym ddau ddarlun yma – un mewn geiriau a'r llall drwy lygad y camera, dau ddarlun sy'n plethu'n hyfryd i greu cyfrol ddeniadol i bori drwyddi ac sy'n agor cil y drws ar ambell gilfan newydd o'r 'hen wlad'.

**Goronwy Wynne**

*Madamrygbi Y briodas*
Y Lolfa 144t £7.95

Pa ferch sydd ddim yn breuddwydio am briodi un o fois tîm Rygbi Cymru? Er hynny, mae yna freuddwydio ... a breuddwydio! Un peth sy'n sicr, dydy Rhian Madamrygbi Davies ddim hanner call.

Dyma hwyl. Dyma hafoc. Dyma hyncs.

Ferched, agorwch botel o win pinc, ewch i nôl y siocledi, rhowch eich traed i fyny a pharatowch at y chwerthin. Rydym ni'n hen gyfarwydd â'r ferch fywiog hon wrth iddi ddilyn ei 'bezzers' – bois Cymru – i gemau rygbi rhyngwladol fel rhan o'i gohebiaeth ar sioe'r J-Dog ei hun, Jonathan ar S4C - a hynny mewn cawodydd, cyfweliadau, ac ar y cae.

Ceir yma hefyd hanes Rhian wrth iddi fynd ati i drefnu priodas ei breuddwydion yn Stadiwm y Mileniwm – ac ydy, mae hi wedi bachu dyn ei breuddwydion hefyd – Jamie Roberts. Ie, Y Jamie Roberts. HOT.

Ers i Jamie ei hachub o gwymp poenus, maen nhw'n 'made for each other', fel Adam Jones a'i affro! Ond dydy pethau ddim mor syml â hynny; mae yna bobl i'w darbwyllo, a phethau i'w trefnu, ac wrth gwrs gemau rygbi i'w hennill. A yw Rhian yn cyrraedd yr allor, neu a ddyliwn i ddweud y pyst?

Mae'r gyfrol hon wedi ei hysgrifennu yn y Wenglishgorau sy'n bodoli ac mae'n llawn cymeriad. Wrth i Rhian ruthro o un lle i'r llall gan milltir yr awr, yn trydar, yn anfon negeseuon Facebook, yn ffonio Jamie fil (a mwy) o weithiau, rydyn ninnau'n byrlymu trwy'r llyfr yn ceisio gwneud ein gorau glas i ddal i fyny gyda'r holl helbul. Dyma chwyrligwgan o lyfr sy'n gwneud i'ch pen droi fel top erbyn y diwrnod mawr! Mae Rhian, er mor chwit-chwat, yn ferch hoffus dros ben, ac mae ei mam agroffobig, Deathrow John, Big Dave a'r criw yn rhoi gwên fawr ar eich wyneb hefyd.

Dyma chwa sydyn o awyr iach! Newsflash. Mae gan y ferch hon y job mwya 'awesome' yn y byd a 'Rygbi yw "religion" hi'. Parch.

**Llinos Griffin**

**Gweler llun Madamrygbi gydag un o'i ffans ar t. 7**

Lleucu Roberts *Teulu* Y Lolfa 240 t. £8.95

Ar drothwy cyfres deledu olaf Teulu dyma nofel boblogaidd sy'n atodiad i'r gyfres ac sy'n siŵr o daro deuddeg. Mae hi'n rhagflaenu'r gyfres deledu gan fynd â ni'n ôl i ddyddiau ieuenctid Margaret Caeffynnon a'i ffrind bore oes John, sy'n fab i was y teulu. Craidd y stori yw bod y closio rhwng y ddau heb blesio'i thad. Mae ganddo ef drefniadau a gobeithion amgen i'w ferch. A'r cwestiwn mawr yw a fydd Margaret yn ddigon cadarn i ddilyn ei chalon neu i blygu tan bwysau teuluol?

Canolbwyntir yn bennaf ar dri chymeriad adnabyddus o'r gyfres, sef Margaret (Mair Rowlands yn y gyfres), John (Rhys Parri Jones) a Richard (William Thomas). Mae'r tri gryn dipyn yn iau, yn ddibrofiad ac yn llai soffistigedig na'r rhai a welwyd gyntaf yn y gyfres yn 2006 ac o'r herwydd yn ei chael hi'n anodd gwahaniaethau rhwng rhamant a chariad.

Profodd Teulu, a ffilmir yn Aberaeron i fod yn un o gyfresi drama mwyaf poblogaidd S4C. Mae'r stori, gan Meic Povey a Branwen Cennard, yn orlawn o gynllwyn teuluol a chymdeithasol gyda sawl sgerbwd yn cuddio mewn gwahanol gypyrddau. Adlewyrchir hyn yn y nofel gyda'r gwrthdaro parhaus rhwng teuluoedd, rhwng gwerthoedd a theyrngarwch, traddodiad, dosbarth cymdeithasol a rhyddid cydwybod.

Aethpwyd ati'n fwriadol i ganoli'r digwyddiadau mewn lleoliad go iawn gyda'r cyfan yn troi o gwmpas gwesty, meddygfa a thŷ bwyta yn Aberaeron. Ac mae'r nofel wedi ei seilio ar y wlad o gwmpas y dref yn ogystal â'r dref ei hun. Mae'r syniad o angori'r gyfres wrth le go iawn yn un o'i chryfderau. Mae'r digwyddiadau rhwng dau glawr lawn mor gyffrous â'r hyn a welir ar y sgrin.

Bydd y nofel hon yn apelio at selogion y gyfres, gwylwyr achlysurol a'r rheiny sydd heb eto gael y pleser o'i gwylio. Fe'i disgrifir fel 'Nofel fachog â charwriaeth dymhestlog wrth ei chalon.' Ac mae disgrifiad Caryl Lewis yn berffaith gywir. Yn hytrach nag adrodd digwyddiadau a welwyd ar hyd y gyfres mae hi'n sefyll ar ei phen ei hun fel stori gwbl ar wahân. Mae hi felly'n atodiad derbyniol iawn ar drothwy'r gyfres olaf.

Cryfder y gyfres deledu yw'r briodas lwyddiannus rhwng y cymeriadau dychmygol a'r castio. Maen nhw'n gymeriadau cyflawn, crwn a bortreadir gan rai o'n hactorion amlycaf, mwyaf galluog a mwyaf profiadol. Dydi'r nofel ddim yn gwanhau'r un iot wrth i'r cymeriadau fod yn rhai papur, o ran cyfrwng. Wrth ddilyn eu helyntion daw wynebau a lleisiau'r actorion sydd wedi – ac sydd yn dal – i'w portreadu, yn fyw yn ein dychymyg.

**Lyn Ebenezer**

Adolygiadau oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

# Llythyrau

**Ydych chi'n cofio darllen y nofel Teulu Bach Nantoer ?**




Annwyl Ddarllenwyr,
Rydym wrthi'n paratoi rhaglen fydd yn cael ei darlledu ar S4C ddechrau'r haf i nodi canmlwyddiant cyhoeddi **Teulu Bach Nantoer**. Yn ôl pob tebyg, y nofel hon gan Moelona, a gyhoeddwyd yn 1913, yw'r nofel fwyaf poblogaidd erioed i blant yn y Gymraeg. Ar gyfer ein rhaglen yr ydym yn chwilio am bobl ddarllenodd y nofel pan yn ifanc – neu yn hŷn ! Os ydy chi'n un o'r miloedd ddarllenodd y nofel ac am rannu eich atgofion a fyddech chi mor garedig â chysylltu â ni naill ai drwy lythyr, ebost, ffôn neu ar facebook? Os nad ydy chi am gymryd rhan yn y rhaglen ond yn barod i rannu eich atgofion mae croeso i chi hefyd i gysylltu – bydd yn braf clywed mwy am y nofel ac atgofion pawb ohoni.

Os hoffech ddarllen y nofel eto neu ei darllen am y tro cyntaf, mae yna gopi ar gael ar wefan **Llyfrau o'r Gorffennol**. http://www.llyfrau.org/

Yn gywir,
Catrin M.S. Davies a Dinah Jones
Unigryw, Tŷ Goronwy, 32 Heol y Wig, Aberystwyth
Ceredigion SY23 2LN
Rhif ffôn: 07804 260042 Ebost : post@unigryw.com
Facebook: Teulu Bach Nantoer

Annwyl Olygydd,
A oes gan eich darllenwyr brofiad o wasanaethau'r Samariad y bydden nhw'n barod i'w rannu?

A oedd hi'n hawdd derbyn gwasanaeth yn Gymraeg neu a oedd rhwystrau? Pa effaith gafodd hynny arnyn nhw? A oedden nhw'n fodlon â'r gwasanaeth, neu a oes ganddyn nhw negeseuon am y ffordd y gellid gwella'r ddarpariaeth Gymraeg?

Dyma'r cwestiynau y mae Samariaid Cymru yn awyddus i gael atebion iddyn nhw ac maen nhw wedi comisiynu tîm o ymchwilwyr o Estyn Llaw i wneud y gwaith. Bwriad yr ymchwil yw i fwrw golwg ar y berthynas rhwng y Samariaid a siaradwyr Cymraeg.

Yma yn Estyn Llaw rydyn ni'n awyddus i siarad â phobl sydd wedi cysylltu â'r Samariaid neu deuluoedd iddynt a all ddweud wrthon ni sut brofiad gawson nhw, boed hynny'n ganmoliaeth neu'n gwyn.

I wybod mwy am yr ymchwil a sut i gymryd rhan, mae croeso mawr i ddarllenwyr gysylltu â Siwan Tomos o brosiect Estyn Llaw yn *Iaith: Y Ganolfan Cynllunio Iaith* ar 01239 711668 neu siwan.tomos@iaith.eu. Caiff pob cyswllt a chyfraniad eu trin yn hollol gyfrinachol.

Edrychaf ymlaen yn fawr at glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb i gymryd rhan cyn dydd Gwener, Mawrth 8.

Yn gywir,
**Siwan Tomos, Rheolwr Prosiect**

Annwyl Olygydd,
Mae'r Gronfa Loteri Fawr a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn galw ar bobl ar draws Cymru i roi dechrau da i 2013 trwy wirfoddoli eu hamser mewn grŵp cymunedol neu elusen leol.

Yn ogystal â gwneud gwahaniaeth i bobl eraill, dengys ymchwil y **Gronfa Loteri Fawr** y gall gwirfoddoli helpu i gynyddu sgiliau, hyder a hunan-barch.

Dyna pam mae'r Gronfa Loteri Fawr a **WCVA** wedi dod ynghyd i annog mwy o bobl i wirfoddoli i gael gwared ar ddiflastod yn sgil y Nadolig. Fel corff mantell ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru, mae WCVA yn cynrychioli ac yn creu cysylltiadau â miloedd o fudiadau gwirfoddol ym mhob cwr o'r wlad.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ariannu miloedd o achosion da trwy gydol Cymru - o ofal seibiant ar gyfer gofalwyr, prosiectau i helpu pobl i oresgyn anableddau neu salwch, cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial, neu adfywio parciau a mannau cyhoeddus - y mae llawer ohonnyn nhw'n chwilio am gefnogaeth gan wirfoddolwyr. Gallwch gael gwybod am yr ystod o gyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael gyda rhai o'n prosiectau trwy fynd i'n gwefan www.biglotteryfund.org.uk/welsh/community/blue-monday

Yn ogystal â gwirfoddoli i brosiectau a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr, mae yna miloedd o weithgareddau ac elusennau eraill y mae angen cefnogaeth arnynt. Ewch i www.gwirfoddolicymru.net i gael mwy o wybodaeth a chyfeiriadau i fudiadau a gwefannau gwahanol sy'n helpu pobl i gymryd rhan.

P'un a oes gennych hanner awr i gael sgwrs gyda'ch cymydog oedrannus neu y gallwch gynnig ymrwymiad rheolaidd, mae cyfleoedd i bawb wirfoddoli.

Cofion Gorau
John Rose

Cyfarwyddwr Cymru, Cronfa Loteri Fawr
Rhif ffon y WCVA yw 0800 2888 329 neu neges destun 07797 805 628
Ebost – help@wcva.org.uk

Pennau

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.

Gwasanaeth enwai tai ar lechen a llwyau caru. Deunyddiau gwnio, yn cynnwys offer DMC, Anchor, Heritage, Derwentwater ac eraill.
Ffôn: 01970 820122

Annwyl Olygydd
Mae Cymdeithas Hanes Blaenpennal yn lansio cyfrol dwyieithog am hanes ardal y Mynydd Bach, Ceredigion (sef rhannau o bentrefi Blaenpennal, Blaenafon, Trefenter, Bronnant, Lledrod, Llangwyryfon, Pen-uwch a Bethania) ar 26 Medi. Bydd y llyfr yn cynnwys nifer o hen luniau o'r ardal hon hefyd.

Rydym yn cyhoeddi llyfr clawr meddal a chlawr caled ac yr ydym yn gwahodd tanysgrifwyr i'r gyfrol clawr caled, sy'n £25. Os hoffech gael eich rhestru fel tanysgrifwr yng nghefn y llyfr, a fyddech gystal â danfon eich manylion llawn (enw, cyfeiriad a ffôn/ebost) a siec am £25 yn daladwy i Cymdeithas Hanes Blaenpennal i: A Findon, Cymdeithas Hanes Blaenpennal, Y Felin, Blaenpennnal, Aberystwyth, SY23 4TP erbyn 31 Mawrth.

Bydd copïau ar gael i'w casglu yn y lansiad ym Mlaenpennal ar 26 Medi. Os nad ydych yn medru bod yn bresennol y noson honno, a wnewch chi ychwanegu £5 arall i'r siec ar gyfer pacio a phostio. Diolch yn fawr.

Yn gywir
Cymdeithas Hanes Blaenpennal
Eirian Jones, Gwynfryn, Llangeitho, TREGARON, Ceredigion SY25 6TR

# Edrych ar y byd drwy gyfrwng y Gymraeg

Efallai mai Môn yw ynys fwyaf Cymru, ond mae ganddi gryn dipyn o ffordd i fynd eto nes cyrraedd statws ynys Naura yn Awstralasia, sydd, yn 21 km sgwâr, yn cipio'r teitl am yr ynys leiaf yn y byd sydd hefyd yn wlad annibynnol. Efallai bod y ffin 170 milltir rhwng Cymru a Lloegr yn edrych yn hir, ond tydi o'n ddim i gymharu â'r ffin hiraf yn y byd, rhwng Canada a'r UDA, sy'n 3,987 milltir o hyd! Nawr gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn daearyddiaeth a ffeithiau am y blaned deithio i bedwar ban byd drwy gyfrwng y Gymraeg, diolch i *Atlas Mawr y Byd* sy'n cael ei gyhoeddi gan Atebol, Aberystwyth.


A wyddoch chi mai Elen Morris o Fryn Gwyn, Ysbyty Ifan ger Llanrwst oedd hen nain Abraham Lincoln, sef 16eg Arlywydd yr Unol Daleithiau (1809-1865), neu er bod Cymru yn cael ei hystyried yn wlad fynyddig, mai Lesotho yn Ne Affrica yw'r wlad uchaf yn y byd? Dyma'r unig dalaith annibynnol gyfan yn y byd sydd yn uwch na 1,000 metr (3,281 troedfedd). Efallai y cewch eich synnu wrth ddysgu mai aderyn cenedlaethol Latvia yw'r siglen wen (white wagtail) ac mai Istanbul yw'r unig ddinas yn y byd sy'n pontio dau gyfandir, gydag un hanner yn Ewrop a'r hanner arall yn Asia!

Gyda lluniau trawiadol o bobl, llefydd a bywyd gwyllt, mae Atlas Mawr y Byd yn rhoi golwg gyffrous ar y byd yn 2012. Gyda'r baneri a'r ffeithiau diweddaraf mewn testun hawdd i'w ddarllen, mae'r atlas Cymraeg hwn wedi'i ddylunio i fod yn llyfr delfrydol i gyfeirio ato'n gyntaf ar gyfer y cartref a'r ysgol.

Dywed Ffion Eluned, fu'n addasu'r llyfr i'r Gymraeg ar y cyd gyda Glyn Saunders Jones, "Mae hi wedi cymryd amser hir i greu'r atlas hwn, ond mae'r cynnyrch gorffenedig yn arbennig ac yn sicr yn un o'r atlasau mwyaf cynhwysfawr sydd wedi'i gynhyrchu yn yr iaith Gymraeg. Mae'n enwi cannoedd o lefydd, prifddinasoedd a nodweddion ffisegol allweddol o gwmpas y byd yn ogystal â baneri, arian a phoblogaethau pob gwlad.

"Rydym ni am i *Atlas Mawr y Byd* gael ei ddefnyddio gan oedolion a phlant fel ei gilydd, ac rydym wedi cynnwys mapiau manwl-gywir wedi eu creu gan ddefnyddio'r technegau mapio digidol diweddaraf.

## Mathias






Ffilmio Mathias/ Hinterland yng Ngogerddan (top) - llun trwy ganiatâd S4C a ger Capel Cwmsymlog (gwaelod).

## LLYFRAU LLAFAR CYMRU

www.llyfraullafarcymru.org

DYMA WASANAETH GWIRFODDOL SY'N RHOI CYFLE I DDEILLION A'R RHAI SY'N CAEL TRAFFERTH I DDARLLEN PRINT GLYWED LLYFRAU CYMRAEG A SAESNEG AM GYMRU AR CD NEU GASET.

Mae na gannoedd a allai fod yn yn mwynhau ein "llyfrau", "cylchgronau" a "phapurau bro".

Os gwyddoch am unrhyw un - ffoniwch 01267238225

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Siarad Cyfrolau
Noddwyd yr hysbyseb hon gan Gronfa Ray Gravell

# Y Cae a'r Capel

Yn ei ysgrif ddifyr yn *Tua'r Lle Bu Dechre'r Daith* (Tŷ John Penri, 1983), mae fy niweddar gyfaill Dan Ifan Davies, a faged yn Erwau Glas, Y Borth, yn trafod dylanwad capel yr Annibynwyr a chae pêl-droed Brynowen, arno. Er imi glywed Dan yn traethu'n huawdl am gampau tîm 'Borth United', roedd gen i ddiddordeb hefyd mewn maes arall yn y pentref, maes Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las. Dywedir ar glawr llyfryn dathlu canmlwyddiant y clwb ym 1985, mai hwn yw'r cwrs llawn hynaf yng Nghymru. Fy llith i, 'Gwas Golffwr', oedd yr unig gyfraniad Cymraeg a gynhwyswyd yn y llyfryn a bydd raid imi ddychwelyd at yr hanes cyn bo hir.

Wrth feicio o Daliesin i'r maes golff drigain mlynedd yn ôl byddwn yn mynd heibio lôn fferm y 'Brickyard', (Ynys Tachwedd erbyn hyn – hen enw rhan o Ynys-las)) sy'n dwyn i gof yr hen waith brics prysur gynt. Am fod cynlluniau ar droed i ddatblygu'r gwaith a gan fod rheilffordd a môr yn ymyl aed ati'n frwdfrydig i adeiladu tai mawr gwyn ac un helaeth Moelynys, gan obeithio y byddai yno bentref a thref maes o law. Dyna pam yr aeth y 35 aelod yng nghapel Annibynwyr y Borth, ati yn genhadol eu hysbryd ym 1893 i dorri sylfeini capel ar gae fferm Tŷ Canol, Ynys-las. Ond er mawr siom ni ddatblygodd y gwaith brics ac ni chodwyd y capel. Gellir gweld y sylfeini ar gae'r fferm. "Yn Ynys-las fe lifa Dyfi ac Eleri i'r môr", meddai Dan Erwau Glas, "un yn canu clodydd Iorwerth Peate a'r llall yn canu clodydd J.J.Williams. Yn Ynys-las fe gefais yr ymdeimlad fod Cymru'n un".

Ond gadawn y llecyn hudolus am y tro, dychwelyd i'r Borth a mynd i olwg addoldy'r Annibynwyr a godwyd ym 1870, chwe blynedd wedi sefydlu'r achos pan ddaeth Edward Jones o Dywyn a'i wraig i fyw i'r pentref adeg agor y rheilffordd. Roedd David ei dad ymhlith Annibynwyr cyntaf Tywyn ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a brawd Edward oedd y Parchedig Daniel Cadfan Jones a fu'n gyfrifol am gychwyn yr achos yn y Priordy, Caerfyrddin ym 1871, lle bûm i yn olynydd iddo. Daethai Cadfan i lafurio yn Ebeneser, Abergwili, a Siloam, Pontargothi, ym 1851 o Goleg Aberhonddu a bu'n ŵr amlwg ym mywyd crefyddol a chyhoeddus Caerfyrddin. Ceir maen coffa i'w briod, ei ferch ag yntau yn ymyl pulpud y Priordy.

Deuai Cadfan a'r Parchedig D.C.Rees, Bethel, Tal-y-bont, i bregethu yng nhartref Edward brawd Cadfan gan mai yno yr addolid cyn codi'r capel. Fe bregethodd saith gweinidog yn y capel newydd ddiwrnod ei agor a dywedwyd fod yr addoldy o gynllun Gothic yn un o adeiladau harddaf y wlad a bod gwasanaethau Saesneg ynddo i'r ymwelwyr o Loegr yn yr haf. Wrth gyrchu i'r capel dywed Dan ei fod ar '...lwybr sydd yn arwain i'r gors. Ond cyn cyrraedd y gors cyrhaeddaf y capel. Hyderaf mai dyna fydd tynged yr oes adwythig hon". Cewch yr hanes yn llawn yn llyfr Dan, a hanes tri chapel arall y pentref a phortreadau difyr o ambell addolwr a dyma un darn diddorol:

"Ni allaf gefnu ar bentref fy mebyd heb alw yn Sosial y Sentars Serchog, i wrando ar Griff y Crossing yn ymholi am hynt yr 'Amen', Myfanwy Budge yn portreadu gofid a gorfoledd 'Gwraig y Morwr', a Gwen Jeremy yn portreadu ehangder y 'Ddinas Sanctaidd, a chyfeilio Rhodwen Davies yn gymorth iddynt ddehongli'n ddeallus ac yn ddefosiynol". Mae gan Dan bortread trawiadol o Griffith Evans y Crossing yn hunangofiant ei ŵyr, y Parchedig Ieuan Davies, *Trwy Lygaid Tymblwr – a Gweinidog* (2007).



Llun o Gasgliad John Thomas trwy ganiatâd © Llyfrgell Genedlaethol Cymru.



Llun y Capel wedi ei adnewyddu - Rhisiart Hincks

"Ar derfyn pob pregeth o'r eiddof llefarai Griff frawddeg werthfawrogol o dan ei anadl – 'Jawch go dda rŵan', ac ar un achlysur – 'Gwd boi, well done'. Wel, a bod yn fanwl gywir, ar derfyn pob pregeth **ond un.** Ar ôl i mi gyhoeddi'r Amen ar derfyn fy nhrydedd pregeth fe fu 'mudandod mal mudandod Eryri'. Yn y bregeth fe drewais nodyn dirwestol – ac nid oedd Griff yn ddirwestwr!". Wedi i Dan egluro nad oedd dim byd personol yn ei sylwadau dyma oedd ymatebGriff, 'Os felly, caniatewch i mi ddweud wrthych i chi bregethu'n gythgam o dde'. Mae'r 'dde' yn ein hatgoffa mai yn Nhynddôl, rhwng Llanbryn-mair a Thalerddig (yn ymyl Hafod y Foel a Foel Fach lle trigai fy hynafiaid yn 1750au) y ganed Griffith ac mai iaith Maldwyn a lefarai. Daeth e a'i deulu i'r Borth ym 1920 pan ddyrchafwyd e'n 'ganger' ar y lein, ei ethol yn ddiacon ac arweinydd y gân ym 1924 a gweithredu fel ysgrifenydd am gyfnod. Ac ni ddylid anghofio mai ef oedd y cyhoeddwr – gwreiddiol a di-ffrils. - "Sul nesa disgwyliwn Niclas 'ma, rydech chi wedi ca'l dannedd gydag e – dowch i ga'l efengyl gydag e!".

Caiff Dan Erwau Glas y gair olaf: "Fel Arweinydd y Gân yn y capel bach am fwy na deng mlynedd ar hugain dangosodd dro ar ôl tro ei ddawn arbennig i ddewis emynau addas ar gyfer pob amgylchiad. Nid wyf yn ymarfer gormodiaith wrth gyhoeddi fod ei lais grymus, persain wedi fy nhywys i borth y Nef ar aml i awr, ac wedi fy ngwefreiddio wrth ddatguddio i mi fawredd digymar y Gwaredwr. Mor addas yr adnod ar garreg fedd Griffith Evans, y Crossing a Chapel Sentars, y Borth ym mynwent Sammah, Cwmllinau, Bro Ddyfi:

'Molaf yr Arglwydd yn fy myw,
Canaf i'm Duw tra fyddwyf'.

**W.J.Edwards**

**Geiriau** Sylfeini – **Foundations** Achos – **Cause** C/Gyrchu tuag at – **to make for**

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Da iawn!

Llongyfarchiadau i Iwan, Connor, Glyn, Josh a Skye am ennill y nifer fwyaf o bwyntiau amser cinio yn ystod y mis diwethaf. Maen nhw'n amlwg yn mwynhau'r driniaeth arbennig!

### Eira...eira....eira!

Wrth i'r eira gwympo'n drwm ym mis Ionawr, daeth gwên fawr i wynebau'r disgyblion, tan daeth y newyddion bod yr ysgol yn aros ar agor! Cafwyd tipyn o hwyl yn chwarae yn yr eira ac amser i adeiladu dyn eira parchus iawn.

### Gweithgareddau

Aeth disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ar ymweliad i Brifysgol Aberystwyth ar Ionawr 24ain er mwyn mynychu gweithdy gwyddonol 'Egni' a gynlluniwyd gan Mr AJS Williams MBE. Dangoswyd llawer o arbrofion diddorol iawn a denodd sylw pob un o'r plant am dros awr a hanner! Diolch yn fawr i Brifysgol Aberystwyth am y gwahoddiad ac am y cyfle arbennig hwn.

### Eco-Sgolion

Mae holl blant yr ysgol wedi bod yn adolygu beth rydym ni'n wneud yn dda fel Ysgol-Eco a beth sydd angen i niei ystyried er mwyn datblygu ymhellach. Mae'r Cyngor Eco wedi llunio cynllun gweithredu er mwyn arbed cymaint o egni ag sy'n bosib fel rhan o 'Wythnos Eco' ar ddechrau mis Chwefror. Cawn wybod a ydyn ni wedi bod yn llwyddiannus maes o law.

### Partneriaeth

Braf oed cael dod at ein gilydd un waith eto fel tair ysgol, sef Ysgolion Craig yr Wylfa, Tal-y-bont a Llangynfelyn er mwyn cymryd rhan mewn gweithdy Amrywiaeth Ddiwylliannol. Roedd hwn yn gyfle gwych i ddysgu am a chymharu bywydau a diwylliannau pobl o wledydd eraill ar draws y byd.

### Comenius

Ar ddiwedd mis Ionawr, teithiodd Mr Leggett a Mrs Nelmes i ddinas Oulu yn y Ffindir fel rhan o brosiect Comenius. Roedd y daith yn wir agoriad llygaid, ac yn gyfle gwych i arsylwi ar wersi a chymharu systemau addysg y ddwy wlad. Rydym yn gobeithio cychwyn 'linc fideo' rhwng dosbarthiadau Ysgol Craig yr Wylfa a'r ysgolion eraill yn y prosiect yn fuan.

### Fferm Denmark

Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus mewn ennill grant trwy 'Fferm Denmark' er mwyn cynnal prosiectau er mwyn gwella amgylchedd y tu allan i'r ysgol a'r gymuned ehangach. Yn y llun gwelir Josh yn mwynhau adeiladu bocs adar. Byddwn yn gosod y bocsys adar o amgylch tir yr ysgol ac yn monitro'r actifedd trwy linc camera i gyfrifiadur yr ysgol.
















# Ysgol Penrhyn-coch

### Cogurdd

Eleni, mae yr Urdd yn trefnu cystadleuaeth coginio i ddisgyblion. Fel rhan o'r gystadleuaeth, mae disgwyl i gystadleuwyr ddilyn rysait penodol yn hollol annibynnol. Cam cyntaf y gystadleuaeth ydy rownd leol o fewn yr ysgol. Daeth criw bach o ddisgyblion dewr ymlaen i gystadlu gyda'r dasg o greu pasta arbennig. Yn cadw llygad barcud arnynt ac yn eu beirniadu oedd cogyddes yr ysgol, Mrs Watkins. Ar ôl cyfnod cyffrous o goginio ac yna blasu, daeth y foment fawr a barnwyd mai Florrie Lithgow oedd yn fuddugol. Llongyfrachiadau mawr iddi ar ei llwyddiant a bydd yn awr yn symud ymlaen i gystadlu yn erbyn disgyblion o ysgolion eraill ble bydd disgwyl iddi baratoi eitem hollol newydd. Pob lwc iddi a llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu.

### Pêl-rwyd

Teithiodd tîm pêl-rwyd yr ysgol i Ganolfan Hamdden Plas-crug i gymryd rhan yn nhwrnament pêl-rwyd yr Urdd Cylch Aberystwyth. Cafwyd nifer o gêmau a llwyddwyd i ennill rhai ohonynt. Yn anffodus, nid oedd y tîm yn ddigon llwyddiannus i symud drwodd i'r rownd derfynol. Llongyfarchiadau iddynt ar eu chwarae.

### Gala Nofio

Teithiodd criw da o nofwyr yr ysgol i lawr i'r pwll nofio ym Mhlas-crug i gymryd rhan yng ngala Ysgolion bach yr ardal. Llwyddodd nifer dda o'r nofwyr hyn i gyrraedd y tri uchaf gan ennill drwodd i'r rownd derfynol yn erbyn yr ysgolion mwyaf. Llongyfarchiadau i bawb fu'n nofio ac i'r rhai a aeth drwodd i'r rownd derfynol. Da iawn chi.

### Bible Explorers

Yn ystod y tymor diwethaf bu disgyblion hŷn yr ysgol yn derbyn sesiynau wythnos ar gynnwys y Beibl gan Bible Explorers. Bu un o'u gweithwyr i mewn yn sgwrsio gyda'r disgyblion ac yn trafod cynnwys y Beibl ac arwyddocâd rhai o'r storïau. Cwblhawyd y sesiynau ar gychwyn y tymor hwn a chyflwynwyd tystysgrifau i'r holl ddisgyblion yn ystod Gwasanaeth Boreol yr ysgol. Bydd pob disgybl yn derbyn copi personol o'r Beibl fel rhan o'r prosiect.

### Rolant Williams

Braf oedd croesawi Mr Rolant Williams, Bow Street, atom i gynnal Gwasanaeth Boreol cyn diwedd yr hanner tymor. Cafwyd gwasanaeth ganddo yn sôn am Dymor y Grawys ac arwyddocad Dydd Mawrth Ynyd a dydd Mercher Lludw. Diolch iddo am ei barodrwydd i ddod atom a gobeithiwn gael cyfle arall i'w groesawu yn fuan iawn.






### Gwellhad Buan

Fel ysgol, rydym yn dymuno gwellhad buan iawn i Miss Hughes. Bu Miss Hughes yn yr ysbyty yn ddiweddar yn cael llawdriniaeth. Braf yw ei gweld yn gwella ac edrychwn ymlaen i'w gweld yn ôl yn yr ysgol yn fuan iawn.

ytincer@googlemail.com

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â TEGWYN LEWIS
01970 880627

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

# Ysgol Rhydypennau

### Ymweliadau

Mae'r prysurdeb yn yr ysgol yn parhau gyda nifer o ymweliadau a gweithgareddau amrywiol.

### Y Fari Lwyd

Er mwyn dathlu dyfodiad y flwyddyn newydd a chodi ymwybyddiaeth y plant o hen draddodiad Cymreig, fe ddaeth Mr Mathew Clubb i'r ysgol gyda'r Fari Lwyd. Cafodd y plant gyfle i holi cwestiynau a dysgu hanes y traddodiad pwysig yma. Hoffai'r ysgol ddiolch i Mr Clubb am ei amser.

### Adran yr Urdd

Mae gweithgareddau'r Adran yn parhau bob nos Fercher. Yn ddiweddar bu blynyddoedd 1,2 a 3 yn mwynhau sesiwn ddifyr gan Mrs Llinos Bonsall. A phlant bwlyddyn 4,5 a 6 yn mwynhau cwis dan ofal Mrs Helen Williams. Mi fydd y sesiynau'n parhau hyd wyliau'r Pasg.

### Mynd am dro

Efallai i chi weld rhai o blant y Cyfnod Sylfaen yn cerdded o gwmpas Bow Street yn ddiweddar; ar yr 17eg o Ionawr, fe gerddodd plant yr Uned Feithrin i'r Swyddfa Bost er mwyn dysgu sgiliau cymdeithasol hanfodol. Yn ystod yr ymweliad bu'r plant yn brysur yn dysgu sut i brynu stamp a danfon llythyr. Cafodd y plant groeso mawr a phrofiadau hynod o bwysig. Diolch yn fawr iawn i John a Maria am gynnig croeso mor gynnes i'r staff a'r plant.
Ar y 5ed o Chwefror fe gerddodd plant blwyddyn un i gyfeiriad y gogledd ac ar hyd ffordd gefn y pentref tuag at fferm Tyn Rhos. Pwrpas y daith oedd arsylwi ar y pwerdy sy'n rheoli trydan y pentref, fel rhan o waith gwyddoniaeth y Tymor.

### Penweddig

Ar ddiwrnod olaf fis Ionawr fe gafodd blwyddyn 6 ragflas o fywyd yn yr ysgol uwchradd. Rhoddwyd gwâdd i'r plant gan Mr Carwyn Davies, dirprwy Ysgol Penweddig gyda'r bwriad o brofi bore o wersi Gwyddoniaeth dan ofal y Pennaeth Mr Gwenallt ap Ifan. Cafwyd sesiwn ddifyr iawn ganddo yn un o labordai'r ysgol yn arbrofi â chylchedau trydan. Diolch yn fawr iawn i Mr Ifan ac i Benweddig am sicrhau profiad pontio ardderchog.

**Am fwy o wybodaeth cliciwch ar www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk**

### Crempog

Ar ddydd Mawrth cynta' fis bach dathlwyd diwrnod crempog yn yr ysgol. Roedd yr arogl melys yn treiddio drwy'r adeilad ac yn codi awch bwyd ar bawb. Yn dilyn y coginio, llenwyd nifer o foliau awchus iawn.

### Gwasanaethau

Mae pedwar o Weinidogion yr ardal wedi cyfrannu i'n gwasanaethau boreol y tymor hwn. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r Parchedigion Richard Lewis, Wyn Morris, Peter Jones ac Andrew Lenny am eu storïau difyr a'u geiriau doeth.

### Diwrnod ar gyfer newid

Cynhaliwyd 'Diwrnod UNICEF ar gyfer Newid' ar y 8fed o Chwefror. Cafodd y plant wisgo dillad lliwgar ar y dydd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r achlysur a chodwyd £136 er mwyn helpu plant tlawd dros y Byd.

### Chwaraeon

Yn ddiweddar bu'r tîm pêl-rwyd yn cystadlu ym mhencampwriaeth Yr Urdd, cylch Aberystwyth yn y ganolfan hamdden ym Mhlas-crug. Enillodd y merched sawl gêm ond collodd y tîm yn y rownd gyn derfynol.
Cynhaliwyd gala nofio cylch Aberystwyth i'r ysgolion mawr ar y 16eg o Ionawr. Oherwydd perfformiadau gwych nifer helaeth o blant blwyddyn 3 i flwyddyn 6, aethant ymlaen i'r rownd derfynol ar y 24ain o Ionawr.

### Clwb Cant

Mae'r amser wedi cyrraedd eto i ymuno â chlwb cant yr ysgol. Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol unwaith eto yn parhau i wahodd rhieni, athrawon a ffrindiau'r ysgol i ymaelodi â'r clwb 100. Mi fydd yr aelodaeth yn parhau, fel llynedd, am flwyddyn gan ddechrau ym mis Mawrth a gorffen ym mis Rhagfyr.
Bydd hi'n angenrheidiol i bob aelod dalu tâl aelodaeth blynyddol o ddeg punt a fydd yn talu am gost pob cyfle i ennill yn ystod y cyfnod. Cyfanswm yr holl arian sef gwobrau'r flwyddyn fydd pum can punt. Bydd yr holl elw yn mynd tuag at y GRhA ac felly tuag at yr ysgol. Mi fydd y gwobrau misol fel a ganlyn:
1af- £25 2il-£15 3ydd-£10
Os am ymuno â'r clwb cysylltwch â Delyth Morgan ar 01970 820656

### Pob Dymuniad Da

Llongyfarchiadau mawr i Miss Olwen Morus, athrawes yr Uned Feithrin ar enedigaeth ei merch, Celyn Mair toc wedi deuddeg o'r gloch ar y deuddegfed o Ragfyr. Hoffai'r ysgol ddymuno pob dymuniad da i'r teulu bach newydd.



Coginio Crempogau



Y Fari Lwyd



Ymweliad Blwyddyn 6 i Benweddig



Y Dosbarth Meithrin yn cyrraedd Swyddfa'r Post.

# Tasg y Tincer


Charlotte

Diolch i'r tair liwiodd y llun Tsieineaidd mis diwethaf. Wel, am lanterni lliwgar!: Dyma'r enwau: Charlotte Richmond, Penrhyn-coch; Lily-May Welsby, Aberystwyth; Kayla Allsopp, Penrhyn-coch:

Ti, Charlotte, sy'n ennill y wobr y tro hwn. Roedd dy lun o'r tŷ a'r goleuadau yn llawn lliwiau llachar.

Wyddoch chi beth sy'n cael ei ddathlu ar 1 Mawrth – ie, Dydd Gŵyl Ddewi, wrth gwrs! Faint ohonoch chi fydd yn cystadlu mewn eisteddfod ac yn cymryd rhan mewn cyngerdd neu wasanaeth ar 1 Mawrth? Cofiwch wisgo cenhinen Bedr! Diwrnod pwysig arall sy'n dod yn fuan iawn wedyn yw Diwrnod y Llyfr ar 7 Mawrth. Cofiwch ddathlu ar y diwrnod hwn hefyd. Falle fydd rhywun arbennig yn dod i'ch ysgol ac yn darllen stori, neu falle y byddwch yn cael gwisgo fel un o'ch hoff gymeriadau o fyd llyfrau. Beth am wisgo fel Rala Rwdins, neu Ben Bril, neu Twm Tomato, hyd yn oed! Ydech chi wedi gweld llyfr newydd Sam Tân, *Criw Antur Pontypandy*, yn y siopau? Mae'n gyffrous iawn, ac mae Norman Price yn llawn drygioni, ond tybed pwy sy'n achub y dydd?

Y mis hwn, lliwiwch y llun o Sam a Penny – maen nhw ar eu ffordd i ddiffodd tân yn rhywle, a hynny ar frys! Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE erbyn dydd Gwyl Ddewi (Mawrth 1af). Ta ta tan toc, a Dydd Gŵyl Ddewi hapus!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**


M THOMAS
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

JONATHAN JAMES LEWIS
Saer Coed
Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES



ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 356 | CHWEFROR 2013